1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 29.2. Mae Rheol Sefydlog 29 yn rhagnodi bod yn rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, gerbron y Cynulliad Cenedlaethol os yw Bil gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol, neu at ddiben sy'n addasu'r cymhwysedd hwnnw.

2. Cafodd y Bil Dadreoleiddio (y "Bil") ei gyflwyno yn Nhŷ'r Cyffredin ar 23 Ionawr 2014. Mae'r Bil i'w weld yn:

   http://services.parliament.uk/bills/2013-14/deregulation.html

Crynodeb o'r Bil a'i Amcanion Polisi

3. Mae'r Bil yn cael ei noddi gan Swyddfa'r Cabinet. Amcanion Llywodraeth y DU ar gyfer y Bil yw dileu neu leihau beichiau rheoleiddiol diangen sy'n llesteirio neu'n costio arian i fusnesau, unigolion, gwasanaethau cyhoeddus neu'r trethdalwr.

4. Mae'r Bil yn cynnwys mesurau sy'n ymwneud a meysydd cyffredinol a phenodol sy'n gysylltiedig â busnes, cwmnïau ac ansolfedd, defnyddio tir, tai, trafnidiaeth, cyfathrebu, yr amgylchedd, addysg a hyfforddiant, adloniant, awdurdodau cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder. Mae'r Bil yn darparu hefyd ar gyfer gosod dyletswydd ar y rheini sy'n arfer swyddogaethau rheoleiddiol penodedig i ystyried buddioldeb hyrwyddo twf economaidd. Bydd y Bil hefyd yn diddymu deddfwriaeth nad yw bellach o ddefnydd ymarferol.

Darpariaethau yn y Bil y ceisir cydsyniad ar eu cyfer

Deddf Daliadau Amaethyddol 1986; datrys anghydfodau drwy benderfyniad gan drydydd parti

5. Gofynnir i'r Cynulliad ganiatáu'r diwygiad i'r Bil Dadreoleiddio a osodwyd ar 13 Mawrth 2014, ac sy'n diwygio amryfal adrannau o Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986, ynghyd ag amryfal Atodlenni iddi. Mae'r diwygiadau hynny i Ddeddf 1986 yn gwneud darpariaeth sy'n galluogi'r partïon i gytuno bod anghydfodau (ac eithrio'r rheini sy'n ymwneud â rhybudd i ymadael) yn cael eu setlo gan arbenigwr annibynnol yn hytrach na thrwy gymrodeddu.

6. Ar hyn o bryd, mae Deddf Daliadau Amaethyddol 1986 yn darparu tri dull o ddatrys anghydfodau rhwng landlordiaid a thenantiaid:

a. y Tribiwnlys Tir Amaethyddol (mewn perthynas â Chymru);
b. cymrodeddu;
c. y Llysoedd.

7. Cymrodeddu yw'r prif ddull o ddatrys anghydfodau o dan Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986. O dan y Ddeddf honno, nad yw'n darparu ar gyfer dull arall o ddatrys anghydfodau, mae'n rhaid cyfeirio'r rhan fwyaf o anghydfodau, yn enwedig y rheini sy'n ymwneud ag ystyriaethau amaethyddol ymarferol, i'w cymrodeddu. Effaith y diwygiad fydd darparu ar gyfer y partïon dan sylw broses amgen, llai beichus o ddatrys anghydfodau, sydd hefyd yn un gyflymach a chosteffeithiol

8. Mae'r diwygiadau i Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986 yn gymwys o ran Cymru.

9. Nid yw'r diwygiadau i Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986 yn cynnwys pwerau i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth.

10. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y darpariaethau hyn o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn ymwneud ag:

    a. Amaethyddiaeth (o dan baragraff 1 o Ran 1, Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006); a

    b. Tai (o dan baragraff 11 o Ran 1, Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006).

Deddf Bridio Cŵn 1973 (p.60) a Bridio a Gwerthu Cŵn (Lles) 1998 (p.11)

11. Gofynnir i'r Cynulliad ganiatáu'r diwygiad i'r Bil Dadreoleiddio, a osodwyd ar 18 Mawrth 2014, ac sy'n diddymu:

    a. Is-adran 1(4)(i) o Ddeddf Bridio Cŵn 1973 (ac sy'n gwneud y diwygiadau canlyniadol angenrheidiol);

    b. Is-adrannau 8(1)(e) ac 8(3) o Ddeddf Bridio a Gwerthu Cŵn (Lles) 1999 (ac sy'n gwneud y diwygiadau canlyniadol angenrheidiol).

12. Mae'r bwriad i ddiddymu is-adran 1(4)(i) o Ddeddf Bridio Cŵn 1973 ac is-adrannau 8(1)(e) ac 8(3) o Ddeddf Bridio a Gwerthu Cŵn (Lles) 1999 (ynghyd â'r diwygiadau canlyniadol angenrheidiol) a nodir yn y Bil Dadreoleiddio yn gymwys i Loegr a, chyda chaniatâd y Cynulliad, i Gymru.

13. Ar hyn o bryd, mae adran 1(4)(i) o Ddeddf Bridio Cŵn 1973 yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol, wrth benderfynu a ddylid rhoi trwydded i sefydliad bridio cŵn ai peidio, ystyried yr angen i sicrhau bod cofnodion cywir yn cael eu cadw. O dan is-adran 8(1)(e) o Ddeddf Bridio a Gwerthu

Cŵn (Lles) 1991, mae, ar hyn o bryd, yn drosedd i geidwad sefydliad bridio trwyddedig werthu i geidwad siop anifeiliaid anwes drwyddedig neu i sefydliad magu yn yr Alban gi nad yw, pan gaiff ei drosglwyddo, yn gwisgo coler ac arno dag neu fathodyn adnabod. O dan is-adran 8(3) o Ddeddf 1991, mae, ar hyn o bryd, yn drosedd i geidwad siop anifeiliaid anwes drwyddedig werthu ci a oedd, pan gafodd ei drosglwyddo iddo, yn gwisgo coler ac arno dag neu fathodyn adnabod ond nad yw'n gwisgo coler o'r fath wrth gael ei drosglwyddo i'r prynwr.

14. Mae deddfwriaeth newydd (a fydd yn disodli'r ddeddfwriaeth bresennol ar fridio ac adnabod cŵn) yn cael ei datblygu yng Nghymru a Lloegr, a fydd, yn ei hanfod, yn ei gwneud yn ofynnol gosod microsglodyn mewn anifail fel y bo modd ei adnabod. Byddai cadw'r gofynion presennol i gadw cofnodion papur ar adnabod cŵn yn dyblygu gofynion, a byddai hefyd yn faich diangen ar fusnesau bach. Er gwybodaeth, nid yw'r ffaith bod y ddeddfwriaeth uchod ar fridio cŵn yn cael ei diddymu yn dileu'r gofyniad i berson sy'n berchen ar gi sicrhau bod gan y ci hwnnw goler ac arno dag adnabod ac y gellir clymu tennyn wrtho.

15. Er gwybodaeth, mae Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Bridio Cŵn) (Cymru) 2014 ar fin cael eu gosod a'u gwneud mewn perthynas â Chymru cyn toriad yr haf, a byddant yn dod i rym 6 mis yn ddiweddarach. Mae'r rheoliadau hynny'n cynnwys dulliau adnabod priodol megis yr angen i osod microsglodyn mewn ci cyn iddo adael mangre bridio a'r angen i gadw cofnodion priodol ar fridio cŵn.

16. Ar y sail honno, bernir nad oes bellach angen y darpariaethau'n ymwneud â bridio cŵn sy'n cael eu diddymu gan y diwygiad yn y Bil Dadreoleiddio ac, o'r herwydd, y dylai'r diddymiadau arfaethedig fod yn gymwys mewn perthynas â Chymru.

17. Yr unig beth y mae'r ddarpariaeth uchod yn y Bil Dadreoleiddio yn ei wneud yw diddymu is-adran 1(4)(i) o Ddeddf Bridio Cŵn 1973 ac is-adrannau 8(1)(e) ac 8(3) o Ddeddf Bridio a Gwerthu Cŵn 1999 (a gwneud y diwygiadau canlyniadol angenrheidiol). Nid yw'r ddarpariaeth hon yn y Bil yn rhoi unrhyw bwerau i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth.

18. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn (i'r graddau y mae'r darpariaethau hyn yn ymwneud â Chymru) bod y darpariaethau hyn o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn ymwneud ag Iechyd a Lles Anifeiliaid o dan baragraff 1 o Ran 1 o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Manteision defnyddio'r Bil hwn yn hytrach na deddfwriaeth y Cynulliad

19. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn gan Senedd y DU gan mai dyma'r dull deddfwriaethol mwyaf priodol a chymesur o alluogi'r darpariaethau hyn i fod yn gymwys mewn perthynas â Chymru. Mae'r diwygiadau

arfaethedig yn rhai technegol ac annadleuol. Hefyd, mae'r cysylltiadau agos rhwng y systemau gweinyddol perthnasol yng Nghymru a Lloegr yn golygu mai'r ffordd fwyaf effeithiol a phriodol o weithredu yw bwrw ymlaen â darpariaethau'r Bil ar gyfer y ddwy wlad ar yr un pryd yn yr un offeryn deddfwriaethol.

Goblygiadau ariannol

20. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol i Lywodraeth Cymru.

Alun Davies AC
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd
Ebrill 2014

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL ATODOL

Y BIL DADREOLEIDDIO: GWELLIANNAU MEWN PERTHYNAS Â DEDDF DALIADAU AMAETHYDDOL 1986, DEDDF BRIDIO CŴN 1973 A DEDDF BRIDIO A GWERTHU CŴN (LLES) 1999

Nodyn Cyngor Cyfreithiol

Cyflwyniad

1. Cyflwynwyd y Bil Dadreoleiddio ("y Bil") yn Nhŷ'r Cyffredin ar 23 Ionawr 2014 ac mae yn y cyfnod adrodd ar hyn o bryd. Penderfynwyd y byddai trafodion y Bil yn cael eu trosglwyddo i'r sesiwn Seneddol nesaf.

2. Gosododd Alun Davies AC, y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd, Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ("Memorandwm") ynghylch y Bil ar 24 Chwefror 2014. Trafododd y Pwyllgor y Memorandwm ar 31 Mawrth 2014. Yn dilyn hynny, gosododd y Pwyllgor ei adroddiad ar y Memorandwm ar 1 Mai 2014.

3. Ar 22 Ebrill 2014, gosododd Alun Davies AM Femorandwm atodol yn sgîl gwelliannau a gyflwynwyd i'r Bil.

Cefndir

4. Amcanion polisi Llywodraeth y DU ar gyfer y Bil yw dileu neu leihau beichiau rheoleiddiol diangen sy'n rhwystro neu'n arwain at gostau i fusnesau, unigolion, gwasanaethau cyhoeddus neu drethdalwyr. Mae'n cynnwys mesurau sy'n ymwneud â meysydd busnes cyffredinol a phenodol sy'n cwmpasu meysydd amrywiol, o adloniant i weinyddu cyfiawnder.

Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol

5. Mae'r Memorandwm atodol yn nodi gwelliannau i'r Bil, a osodwyd yng nghyfnod Pwyllgor y Bil yn Nhŷ'r Cyffredin, sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol a cheisir ei gydsyniad mewn perthynas â hwy.

Diwygio Deddf Daliadau Amaethyddol 1986

6. Mae Deddf Daliadau Amaethyddol 1986 yn berthnasol i denantiaethau amaethyddol a drefnwyd cyn 1 Medi 1995 a rhai tenantiaethau a drefnwyd ar ôl y dyddiad hwnnw. Mae'n rheoli'r berthynas rhwng y landlord a'r tenant, yn ogystal â rhoi sicrwydd deiliadaeth a hawliau olyniaeth, gan reoleiddio telerau'r denantiaeth a darparu ar gyfer iawndal i'r tenant neu'r landlord o dan rai amgylchiadau.

7. Ar hyn o bryd, mae Deddf Daliadau Amaethyddol 1986 yn darparu tair ffordd o ddatrys anghydfodau rhwng landlordiaid a thenantiaid, gan gynnwys cymrodeddu.

8. Mae'r Memorandwm yn nodi mai cymrodeddu yw'r brif ffordd o ddatrys anghydfodau ar hyn o bryd, a gellir atgyfeirio'r rhan fwyaf o anghydfodau o dan Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986 yn orfodol i gam cymrodeddu.

9. Cytunwyd ar welliannau a gyflwynwyd i'r Bil sy'n ymwneud â Deddf Daliadau Amaethyddol 1986 gan Bwyllgor Biliau Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin ar 25 Mawrth 2014.

10. Byddai'r gwelliannau yn galluogi i'r partïon sy'n rhan o rai anghydfodau o dan Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986, gael eu hatgyfeirio at arbenigwr annibynnol a gyfarwyddir ar y cyd, er mwyn gwneud penderfyniad arnynt drwy drydydd parti yn hytrach na thrwy gymrodeddu. Yn ôl Llywodraeth Cymru, bydd hyn yn sicrhau proses llai ffurfiol, rhatach a chyflymach o ddatrys anghydfodau.

11. Pan gynigiodd y gwelliant yn y Pwyllgor, dywedodd Oliver Heald QC AS, y Cyfreithiwr Cyffredinol, y gallai penderfyniadau o dan y broses newydd arwain at arbedion o hyd at £10,000 i'r partïon ym mhob achos. Dywedodd hefyd fod ffermwyr tenant wedi gofyn am y diwygiad, a bod cefnogaeth gref i'r diwygiad o du'r Grŵp Diwydiant Diwygio Tenantiaethau, sef y grŵp cynghori sy'n cynrychioli landlordiaid a thenantiaid daliadau amaethyddol yng Nghymru a Lloegr.

12. Nid yw'r gwelliannau yn cynnwys unrhyw bwerau i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth, ac maent o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad i'r graddau y maent yn gymwys i faes Amaethyddiaeth a maes Tai o fewn Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Gwelliannau i Ddeddf Bridio Cŵn 1973

13. Mae gofyniad o dan Ddeddf Bridio Cŵn 1973 ar hyn o bryd i safleoedd trwyddedig sy'n bridio cŵn gadw cofnodion ysgrifenedig o'u geist bridio ac unrhyw dorllwythi y byddant yn eu cael.

14. Byddai'r gwelliannau y cytunwyd arnynt gan y Pwyllgor Biliau Cyhoeddus ar 18 Mawrth 2014 yn dileu'r gofyniad hwn.

15. Noda Llywodraeth Cymru mai diben y gwelliant yw lleihau'r baich ar fusnesau bach, gan y bydd yn dyblygu gofynion a geir yn Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Bridio Cŵn) (Cymru) 2014, y bwriedir eu gosod a'u gwneud cyn toriad yr haf. Ym mharagraff 15 o'r Memorandwm, noda Llywodraeth Cymru y bydd y rheoliadau'n cynnwys prosesau adnabod priodol, er enghraifft yr angen i gi gael microsglodyn cyn gadael safle bridio a'r angen i gadw cofnodion priodol ar fridio cŵn.

Gwelliannau i Ddeddf Bridio a Gwerthu Cŵn (Lles) 1999

16. O dan Ddeddf Bridio a Gwerthu Cŵn (Lles) 1999, mae'n drosedd i ddeiliad safle bridio trwyddedig werthu ci i ddeiliad siop anifeiliaid anwes drwyddedig neu safle magu trwyddedig yn yr Alban, os nad yw'n gwisgo coler ag arni dag neu fathodyn adnabod pan fo'r ci hwnnw'n cyrraedd y prynwr. Yn yr un modd, mae'n drosedd i berchennog siop anifeiliaid anwes werthu anifail o'r fath.

17. Byddai'r gwelliannau y cytunwyd arnynt gan y Pwyllgor Biliau Cyhoeddus yn dileu'r gofynion hyn.

18. Ym mharagraff 14 o'r Memorandwm, mae Llywodraeth Cymru yn cadarnhau nad yw'r gwelliannau'n dileu'r gofyniad yng Ngorchymyn Rheoli Cŵn 1992 bod unrhyw gi mewn man cyhoeddus yn gwisgo coler ag arni enw a chyfeiriad y perchennog wedi'u hysgrifennu neu'u hysgythru.

19. Yn yr un modd â'r gwelliannau i'r Ddeddf Bridio Cŵn, mae'r Llywodraeth o'r farn bod y darpariaethau'n ddiangen gan mai'r bwriad yw i'r rheoliadau bridio cŵn ei gwneud yn ofynnol i gŵn gael microsglodyn cyn gadael safle bridio beth bynnag, a byddai hynny'n fodd i adnabod y cŵn.

20. Nid oes unrhyw bwerau i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth yn Neddf Bridio Cŵn 1973 na Deddf Bridio a Gwerthu Cŵn (Lles) 1999 ac mae'r gwelliannau o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad i'r graddau y maent yn ymwneud ag lechyd Anifeiliaid o fewn Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Materion i'r Pwyllgor

21. Mae paragraff 19 o'r Memorandwm yn nodi mai mantais defnyddio'r Bil hwn, yn hytrach na deddfwriaeth y Cynulliad, yw mai'r Bil yw'r dull deddfwriaethol mwyaf ymarferol a chymesur o wneud y darpariaethau hyn yn gymwys mewn perthynas â

Chymru. Mae'n nodi, *"The proposed amendments are technical and non-contentious. In addition, the inter-connected nature of the relevant Welsh and English administrative systems mean that it is most effective and appropriate for the Bill provisions to be taken forward at the same time in the same legislative instrument."*

22. Dylid nodi mai'r Ysgrifennydd Gwladol sydd â'r pŵer i gychwyn Atodlenni'r Bil sy'n ymdrin â'r diddymiadau. Ef felly a fydd yn penderfynu pryd y bydd y darpariaethau hynny'n peidio â chael effaith.

23. Yn Lloegr, ni fydd rheoliadau ynghylch microsglodion yn dod i rym tan fis Ebrill 2016, a bydd etholiad cyffredinol cyn hynny.

24. Y drafferth, pan fo'r pŵer yn gyfan gwbl yn nwylo'r Ysgrifennydd Gwladol, yw ei bod yn debygol, o ystyried yr amserlen arfaethedig, y bydd yn dal i fod cyfnod pan fo'n rhaid i fridwyr cŵn a pherchnogion siopau anifeiliaid anwes yng Nghymru gydymffurfio â'r gofynion o dan y rheoliadau bridio cŵn newydd, yn ogystal â gofynion Deddf Bridio Cŵn 1973 a Deddf Bridio a Gwerthu Cŵn (Lles) 1999. Mae perygl hefyd, os bydd amserlen Llywodraeth Cymru ar gyfer y rheoliadau bridio cŵn yn newid, a bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn cychwyn Atodlen berthnasol y Bil cyn y daw'r rheoliadau bridio cŵn i rym yng Nghymru, y byddai bwlch yn y gyfraith a fyddai'n galluogi bridwyr cŵn a pherchnogion siopau anifeiliaid anwes i brynu a gwerthu cŵn nad oes modd eu hadnabod nac olrhain eu hanes yn ôl i sefydliadau penodol.

Gwasanaethau Cyfreithiol

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Mai 2014

Eitem 5

MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL

BIL CYMRU

1. Mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn yn cael ei osod o dan Reol Sefydlog 29.2. Mae Rheol Sefydlog 29 yn rhagnodi bod rhaid i Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gael ei osod, ac y caniateir i Gynnig Cydsyniad Deddfwriaethol gael ei gyflwyno, gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru os bydd un o Filiau Senedd y Deyrnas Unedig yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at ddiben sy'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol neu sy'n addasu'r cymhwysedd deddfwriaethol hwnnw. Mae'r Bil hwn yn addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, yn unol â'r disgrifiad ychwanegol isod. Mae hefyd yn gwneud darpariaeth y mae'n rhaid i Ddatganiad Ysgrifenedig mewn perthynas â hi gael ei osod yn unol â Rheol Sefydlog 30, ac felly dylai'r Memorandwm hwn gael ei ddarllen ar y cyd â'r Datganiad Ysgrifenedig, sydd wedi'i gyflwyno yr un pryd.

2. Cafodd Bil Cymru ("y Bil") ei gyflwyno yn Nhŷ'r Cyffredin ar 20 Mawrth. Mae'r Bil, y gwelliannau a gyflwynwyd iddo a'r Asesiad Effaith ar gael yma:
Bill documents — Wales Bill 2013-14 — UK Parliament

   Mae'r Papur Gorchymyn 'Bil Cymru: Atebolrwydd a Grymuso Ariannol', a gyhoeddwyd ochr yn ochr â Bil Cymru, ar gael yma:
www.gov.uk/government/publications/wales-bill

Crynodeb o'r Bil a'i Amcanion Polisi

3. Noddir y Bil gan Swyddfa Cymru. Amcanion polisi Llywodraeth y Deyrnas Unedig ynglŷn â'r Bil yw peri bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad") a Llywodraeth Cymru yn fwy atebol i bobl Cymru am godi'r arian y maent yn ei wario, a gwella system etholiadau'r Cynulliad.

4. Mae i'r Bil bedair rhan:

   - Mae Rhan 1, cymalau 1 i 5, yn gwneud newidiadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru.

   - Mae Rhan 2, cymalau 6 i 22, yn sefydlu trefniadau newydd ynghylch trethi a benthyca. Mae'n datganoli'r cyfrifoldeb dros dreth ar drafodion tir a gwaredu gwastraff i safleoedd tirlenwi, yn creu pwerau benthyca, ac yn creu'r posibilrwydd, yn amodol ar gymeradwyaeth mewn refferendwm, o ostyngiad o 10 ceiniog mewn treth incwm ar draws pob band treth, ynghyd â'r pŵer i'r Cynulliad drwy benderfyniad osod cyfradd treth incwm Gymreig i wneud iawn am y gostyngiad. Mae hefyd yn creu'r posibilrwydd o drethi datganoledig newydd, ac yn rhoi cymhwysedd i ddeddfu ar weithdrefnau'r gyllideb.

   - Mae Rhan 3, cymalau 23 a 24, yn ymdrin â dau fater amrywiol: terfynau ar ddyledion y cyfrif refeniw tai, a'r berthynas rhwng Comisiwn y Gyfraith a sefydliadau datganoledig yng Nghymru.

- Mae Rhan 4, cymalau 25 i 29, yn nodi materion ynglŷn â chychwyn a rhychwant a materion eraill.

- Mae Atodlen 1 yn rhoi manylion am y refferendwm treth, ac mae Atodlen 2 yn ymwneud â diwygiadau o ganlyniad i ddatganoli treth ar drafodion tir.

Y darpariaethau yn y Bil y gofynnir am gydsyniad iddyn nhw

5. Mae'r darpariaethau yn y Bil sy'n addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad ac y gofynnir am gydsyniad iddyn nhw i'w gweld yng nghymalau 6, 7, 14, 17 ac 21.

Cymal 6: Trethu: rhagarweiniol

6. Mae Cymal 6 yn mewnosod Rhan 4A newydd (ac iddi bedair Pennod) yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 ("Deddf 2006") er mwyn addasu cymhwysedd y Cynulliad i ddarparu pwerau ariannol dros drethi sydd wedi'u datganoli'n llawn.

7. Mae'r cymal yn disgrifio strwythur y Rhan 4A newydd, yn diffinio "trethi wedi'u datganoli" ac yn darparu'r Bennod 1 ragarweiniol. Mae'n esbonio y câi cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad ei addasu drwy ei alluogi i wneud y canlynol:

    - cyflwyno treth ddatganoledig newydd ar drafodion yn ymwneud â buddiannau mewn tir (Rhan 4 Pennod 3 – yr ymdrinnir â hi isod o dan Gymal 14);

    - cyflwyno treth ddatganoledig newydd ar waredu gwastraff i safleoedd tirlenwi (Rhan 4 Pennod 4 – yr ymdrinnir â hi isod o dan Gymal 17).

8. Pe bai'r Cynulliad yn penderfynu sefydlu corff i gasglu a rheoli ei drethi datganoledig, byddai Cymal 6 (adran 116B) yn rhoi cymhwysedd deddfwriaethol i'r Cynulliad i benodi gweision sifil i'r corff hwnnw, ar yr amod bod eu swyddogaethau'n ymwneud â chasglu a rheoli trethi datganoledig a/neu faterion cyllid llywodraeth leol. Ni waeth i bwy y byddai'r Cynulliad yn rhoi'r pŵer i benodi'r gweision sifil hynny, Gweinidogion Cymru fyddai'n talu costau eu penodi.

9. Gall newidiadau i'r rhan 4A newydd, gan gynnwys datganoli trethi datganoledig ychwanegol i Gymru, gael eu diwygio drwy Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor, er y byddai hynny'n amodol ar y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol yn y Cynulliad ac yn nau Dŷ'r Senedd cyn y gallai ddod yn gyfraith.

10. Byddai Cymal 6 yn diwygio'r cymhwysedd deddfwriaethol i sicrhau na fyddai'r eithriadau presennol (sy'n cynnwys, er enghraifft, yswiriant cerbydau modur) yn atal darpariaethau ynghylch trethi ar y materion hynny, pe bai Gorchymyn yn cael ei wneud yn y dyfodol i ddatganoli trethi ychwanegol i Gymru.

Cymal 7: Gwelliannau ynglŷn â'r Comisiynwyr Cyllid a Thollau

11. Mae Cymal 7 yn cynnwys gwelliannau i Rannau 2 a 3 o Atodlen 7 i Ddeddf 2006 i ganiatáu i'r Cynulliad, gyda chydsyniad Trysorlys EM, ddileu neu addasu swyddogaethau CThEM pan fo'r swyddogaethau hynny'n ymwneud â threthi datganoledig.

Cymal 14: Treth Gymreig ar drafodion ynglŷn â buddiannau mewn tir

12. Ar hyn o bryd mae treth dir y doll stamp yn daladwy wrth brynu neu drosglwyddo eiddo neu dir yn y Deyrnas Unedig os yw'r swm a dalwyd uwchben trothwy penodol (mae'r Alban wedi'i hepgor gan Ddeddf yr Alban 2012, er nad yw'r gwelliannau hynny wedi dod i rym eto). Byddai Cymal 14 yn caniatáu i'r Cynulliad gyflwyno ei dreth trafodion tir ei hun, ac mae'n cyplysu cyflwyno'r dreth Gymreig newydd â datgymhwyso treth dir y doll stamp yng Nghymru.

13. Mae Cymal 14 yn cynnwys Pennod 3 o'r Rhan 4a newydd i'w mewnosod yn Neddf 2006 sy'n disgrifio'r dreth a phryd y gallai fod yn daladwy. Mae hefyd yn rhestru'r rhai a fyddai'n esempt rhag talu'r dreth:

    - yn y Llywodraeth: un o Weinidogion y Goron; Gweinidogion Cymru, Prif Weinidog Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol; Gweinidogion yr Alban; ac un o adrannau Gogledd Iwerddon; a

    - yn y Senedd: Swyddog Corfforaethol Tŷ'r Arglwyddi; Swyddog Corfforaethol Tŷ'r Cyffredin; Comisiwn y Cynulliad; Corff Corfforaethol Senedd yr Alban; a Chomisiwn Cynulliad Gogledd Iwerddon.

Cymal 17: Treth Gymreig ar wastraff a waredir i safleoedd tirlenwi

14. Ar hyn o bryd mae treth dirlenwi yn cael ei chodi am waredu gwastraff i safleoedd tirlenwi yng Nghymru a Lloegr neu yng Ngogledd Iwerddon (mae tirlenwi yn yr Alban wedi'i hepgor gan Ddeddf yr Alban 2012, er nad yw'r gwelliannau hynny wedi dod i rym eto). Mae Cymal 17 yn darparu'r mecanwaith i ganiatáu i'r Cynulliad gyflwyno'i dreth ei hun ar waredu gwastraff i safleoedd tirlenwi.

15. Mae Cymal 17 yn cyflwyno Pennod 4 newydd yn Rhan 4A o Ddeddf 2006, sy'n nodi cwmpas pŵer Llywodraeth Cymru i gyflwyno treth ar waredu gwastraff i safleoedd tirlenwi yng Nghymru. Mae adran 116N(1) yn darparu y byddai treth a gâi ei chodi am waredu gwastraff i safleoedd tirlenwi yng Nghymru yn dreth ddatganoledig ac mae adran 116N(2) yn esbonio pa bryd y mae gwarediad yn warediad i safle tirlenwi. Mae is-adran (2) yn sicrhau na ellid codi'r dreth ddatganoledig ar warediadau y byddai treth dirlenwi'r Deyrnas Unedig yn gymwys iddynt, gan gyplysu cychwyn y dreth ddatganoledig newydd â datgymhwyso treth dirlenwi'r Deyrnas Unedig yng Nghymru.

Cymal 21: Gweithdrefnau'r gyllideb

16. Byddai Cymal 21 yn rhoi cymhwysedd i'r Cynulliad i ddeddfu ar gyfer ei weithdrefnau cyllideb ei hun drwy fewnosod hyn fel pwnc newydd ym mharagraff 13 o Ran 1 o Atodlen 7 i Ddeddf 2006. Mae is-adran (2) o'r cymal hefyd yn diffinio beth yw gweithdrefnau cyllideb.

17. Byddai'r cymal yn galluogi'r Cynulliad i ddeddfu mewn perthynas â gweithdrefnau ar gyfer craffu ar gyllideb flynyddol Gweinidogion Cymru, "personau perthnasol" eraill ac unrhyw gorff arall a fyddai'n derbyn taliadau o Gronfa Gyfunol Cymru yn rhinwedd deddfiad (gan y Senedd neu gan y Cynulliad) ac mewn perthynas â phennu'r gyllideb

honno. Er enghraifft, byddai'n caniatáu i'r Cynulliad basio Deddf Cyllid flynyddol yn lle'r cynnig cyllideb blynyddol cyfredol.

18. Gan y byddai gan y Cynulliad gymhwysedd ynglŷn â threthi datganoledig hefyd (h.y. trafodion yn ymwneud â buddiannau mewn tir, a gwaredu gwastraff i safleoedd tirlenwi), gallai gweithdrefnau'r gyllideb gynnwys penderfynu ar y cyfraddau treth mewn perthynas â'r trethi hyn, rhagolygon ynglŷn â derbyniadau treth, amrywiannau, benthyca at ddibenion cyfredol a dibenion cyfalaf a symiau ar gyfer ad-dalu benthyciadau, yn ogystal ag awdurdodi faint y câi "personau perthnasol" (a ddiffinnir yn y Bil) ei wario.

19. Er mwyn deddfu ar gyfer gweithdrefnau cyllideb newydd, mae Rhan 2 o Atodlen 7 i Ddeddf 2006 wedi'i diwygio gan is-adran (3) o Gymal 21 i ganiatáu i'r Cynulliad addasu'r adrannau hynny yn Neddf 2006 sy'n cyfeirio at broses bresennol y cynnig cyllideb – h.y. adrannau 119 (i'r graddau y mae'n ymwneud â'r amcangyfrif o daliadau a ddisgrifir ac nid â dyletswydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn is-adran (3) o'r adran honno), 120(2), a 125 i 128. Gan y gall fod angen hefyd i'r Cynulliad wneud addasiadau cyfyngedig i ddarpariaethau eraill yn Rhan 5 o Ddeddf 2006, mae is-adran (3) yn mewnosod is-baragraff newydd ym mharagraff 5 o Ran 2 o Atodlen 7 sy'n galluogi Deddf Cynulliad i wneud diwygiadau i adrannau eraill yn Rhan 5 neu yn adran 159 o Ddeddf 2006 ar yr amod eu bod (a) yn atodol i ddarpariaethau mewn Deddf Cynulliad sy'n ymwneud â gweithdrefnau cyllideb neu drethi datganoledig neu'n ganlyniadol i ddarpariaethau o'r fath, a (b) wedi sicrhau cydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol.

20. Pe bai refferendwm yn penderfynu y dylid datganoli pwerau i amrywio cyfraddau treth incwm i Gymru, mater i'r Cynulliad fyddai penderfynu a ddylai penderfyniad y Cynulliad i bennu cyfradd Gymreig y dreth incwm gael ei ystyried fel rhan o weithdrefnau'r gyllideb neu beidio.

Y sail resymegol dros ddefnyddio Bil y Deyrnas Unedig

21. Ym marn Llywodraeth Cymru, mae'n briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn ar lefel y Deyrnas Unedig am na allai'r darpariaethau gael eu gwneud drwy Ddeddf Cynulliad. Nid yw'r darpariaethau o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad ar hyn o bryd, ond yn hytrach maent yn addasu'r cymhwysedd hwnnw drwy ei ymestyn at y dyfodol. Mae'r darpariaethau yn rhoi nifer o argymhellion adroddiad Rhan 1 Comisiwn Silk ar waith, sef argymhellion y mae Llywodraeth Cymru wedi'u derbyn yn eu cyfanrwydd.

Y goblygiadau ariannol

22. Mae trafodaethau yn mynd rhagddynt rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig ynghylch cost gweithredu'r diwygiadau ariannol a geid drwy'r mesurau sydd wedi'u cynnwys yn y Bil.

23. Ochr yn ochr â chyflwyno'r trethi Cymreig newydd (yn Ebrill 2018), byddai Trysorlys EM yn gostwng grant bloc Cymru i adlewyrchu pwerau newydd Llywodraeth Cymru i godi refeniw. Mae trafodaethau yn mynd rhagddynt i gytuno beth fyddai lefel y gostyngiad hwn.

24. Gan mai cyllideb Cymru fyddai'n ysgwyddo'r anwadalrwydd a gâi ei greu yn y refeniw o drethi wedi'u datganoli'n llawn, mae Bil Cymru yn rhoi'r gallu i Lywodraeth Cymru i fenthyca yn y tymor byr er mwyn rheoli'r anwadalrwydd hwn. Mater sy'n cael ei drafod ar hyn o bryd gyda Thrysorlys EM yw sut i weithredu'r system ariannu gyffredinol, y byddai refeniw o'r trethi datganoledig yn rhyngweithio ynddi â'r grant bloc ac â phwerau benthyca.

25. Ni ddisgwylir y byddai i'r pwerau benthyca newydd – i reoli anwadalrwydd neu at ddibenion buddsoddi cyfalaf – orbenion gweinyddol sylweddol.

26. Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi dweud mai Llywodraeth Cymru a fyddai'n ysgwyddo unrhyw gostau ychwanegol ynglŷn â sefydlu trethi Cymreig newydd ar drafodion yn ymwneud â buddiannau mewn tir ac ar waredu gwastraff i safleoedd tirlenwi (yn net arbedion i Lywodraeth y Deyrnas Unedig am na fyddai mwyach yn casglu nac yn gweinyddu treth stamp y Deyrnas Unedig na threth dirlenwi'r Deyrnas Unedig yng Nghymru). Er hynny, byddai'n gweithio'n adeiladol gyda Llywodraeth Cymru i leihau gymaint â phosibl ar unrhyw gostau o'r fath.

27. O gael pleidlais "Ie" mewn refferendwm i gyflwyno cyfradd treth incwm Gymreig newydd, mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig o'r farn mai Llywodraeth Cymru a ddylai ysgwyddo'r costau perthynol. Does dim trafod wedi bod gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig ynglŷn â'r costau hyn, ond yn ei Hasesiad Effaith ynglŷn â Bil Cymru, mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn dweud yr amcangyfrifwyd bod diweddaru systemau TG a phrosesau gweinyddol CThEM i ategu'r newidiadau mewn pwerau treth incwm a gafwyd yn sgil Deddf yr Alban wedi costio tua £40-45 miliwn, ynghyd â chostau rhedeg blynyddol o ryw £4.2 miliwn. Er y gallai'r boblogaeth lai, a'r gwersi a ddysgwyd yn sgil y gwaith ar ran yr Alban helpu i leihau'r costau gweithredu yng Nghymru, mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn nodi y gallai ffactorau eraill arwain at gynyddu'r costau, gan gynnwys y gweithgarwch economaidd ehangach ar y ffin rhwng Cymru a Lloegr (a allai gynyddu nifer yr ymholiadau), yr angen i ehangu gallu llinell gymorth Gymraeg CThEM, a'r costau cydymffurfio ychwanegol a fyddai'n gysylltiedig ag ymdrin â rhai cynlluniau rhyddhad treth ac incwm megis Rhodd Cymorth a'r rhyddhad treth ar gyfer cynlluniau pensiwn.

Jane Hutt AC
Y Gweinidog Cyllid
Mai 2014

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL **Bil Cymru**

DYDDIAD **01 Mai 2014**

GAN **Jane Hutt, Y Gweinidog Cyllid**

Cafodd Bil Cymru ei gyflwyno yn Nhŷ'r Cyffredin ar 20 Mawrth 2014. Cafodd y Bil ei gyhoeddi'n wreiddiol ar ffurf drafft ar 18 Rhagfyr 2013 at ddibenion craffu cyn deddfu. Cyflwynodd y Pwyllgor Materion Cymreig adroddiad ar y Bil drafft ar 28 Chwefror 2014.

Mae'r datganiad ysgrifenedig hwn yn cael ei osod o dan Reol Sefydlog 30 – Hysbysu mewn perthynas â Biliau Senedd y Deyrnas Unedig. Mae'n ymwneud â darpariaethau yn y Bil sy'n addasu swyddogaethau Gweinidogion Cymru, ond nad oes angen Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar eu cyfer o dan Reol Sefydlog 29.

Yr amcanion polisi sydd wedi'u datgan gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig ynglŷn â'r Bil yw peri bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad") a Llywodraeth Cymru yn fwy atebol i bobl Cymru am godi'r arian y maent yn ei wario, a gwella system etholiadau'r Cynulliad

Er hwylustod wrth gyfeirio atynt, mae'r darpariaethau sy'n addasu swyddogaethau Gweinidogion Cymru'n cael eu disgrifio yn y drefn y gwelir hwy yn y Bil, sef cymalau 6, 8, 12, 16, 19, 20, 22, 23, 24 ac Atodlen 1.

Cymal 6 – Trethu: rhagarweiniol

Cymal 6 sy'n darparu'r strwythur y caiff Llywodraeth Cymru ddeddfu o'i fewn ynglŷn â threth. Mae Cymal 6 yn cyflwyno adran 116B newydd yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 ("Deddf 2006"). Mae isadrannau (5), (6) a (7) yn darparu y byddai'n rhaid i Weinidogion Cymru dalu cyflogau, treuliau a phensiynau'r gweision sifil hynny, pe bai'r Cynulliad yn penodi gweision sifil i gorff y byddai'n ei sefydlu i gasglu a rheoli trethi datganoledig.

Cymal 8 – cyfradd treth incwm Gymreig

Mae Cymal 8 yn ymdrin â chyfradd treth incwm Gymreig. Mae is-adran (1) yn mewnosod Pennod 2 yn y Rhan 4A newydd o Ddeddf 2006, sef adrannau 116D i 116K. Mae'r adran 116D newydd yn rhoi pŵer i'r Cynulliad i osod, drwy benderfyniad, gyfradd treth incwm

Gymreig, i drethdalwyr yng Nghymru. Mae adran 116D(8) yn ei gwneud yn ofynnol i Reolau Sefydlog y Cynulliad sicrhau mai dim ond Prif Weinidog Cymru neu un o Weinidogion Cymru a gaiff wneud y cynnig ar gyfer penderfyniad ar gyfradd treth incwm Gymreig.

Mae'r adran 116J newydd yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru roi ad-daliad i unrhyw un o Weinidogion y Goron neu i unrhyw adran o Lywodraeth y Deyrnas Unedig, er enghraifft CThEM, am gostau gweinyddol a ysgwyddir wrth sefydlu cyfradd treth incwm Gymreig.

Cymal 12 – Cynnig ynglŷn â refferendwm gan y Cynulliad

Mae Cymal 12 yn darparu'r mecanwaith y caiff y Cynulliad sbarduno refferendwm ar sefydlu gyfradd treth incwm Gymreig drwyddo. Mae is-adrannau (1) a (2) yn pennu y caiff Prif Weinidog Cymru neu un o Weinidogion Cymru gynnig penderfyniad yn y Cynulliad y dylid gwneud argymhelliad i'w Mawrhydi yn y Cyfrin Gyngor i wneud Gorchymyn sy'n peri i refferendwm gael ei gynnal. Os caiff y penderfyniad hwnnw ei basio gan o leiaf ddwy ran o dair o Aelodau'r Cynulliad, yna rhaid i Brif Weinidog Cymru roi hysbysiad i'r Ysgrifennydd Gwladol cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

Os na osodir Gorchymyn o fewn 180 diwrnod ôl i'r Ysgrifennydd Gwladol gael llythyr Prif Weinidog Cymru, yna rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ysgrifennu at Brif Weinidog Cymru i ddatgan hynny a rhoi rhesymau dros beidio â gwneud hynny. Mae is-adran (4) yn ei gwneud yn ofynnol i Brif Weinidog Cymru osod copi o'r hysbysiad hwnnw gerbron y Cynulliad.

Cymal 16 – Gwybodaeth am drafodion tir yng Nghymru

Mae Cymal 16 yn darparu ar gyfer rhoi gwybodaeth i CThEM am drafodion tir yng Nghymru. Mae is-adran (1) yn mewnosod adran 116M newydd ym Mhennod 3 o Ran 4A o Ddeddf 2006 gan osod dyletswydd i ddarparu gwybodaeth benodol i CThEM am drafodion tir yng Nghymru. Mae adran 116M(1) yn darparu bod rhaid i Lywodraeth Cymru roi unrhyw wybodaeth y mae CThEM yn gofyn amdani i CThEM, pan ofynnir iddynt wneud hynny, gan ei bod yn bosibl na fyddai'r wybodaeth hon ar gael i CThEM mwyach drwy ffurflenni trafodion tir. Mae gweddill is-adrannau Cymal 116 yn diffinio'r wybodaeth a fyddai'n angenrheidiol at y diben hwn a sut y dylai gael ei darparu.

Cymal 19 – Benthyciadau gan Weinidogion Cymru

Mae Cymal 19 yn diwygio adrannau 121 a 122 o Ddeddf 2006, ac yn mewnosod adran 122A newydd, i ddiwygio'r amgylchiadau y caiff Gweinidogion Cymru fenthyca odanynt ac i nodi'r prif reolaethau a'r prif derfynau ar fenthyciadau o'r fath. Mae'r cymal yn galluogi Gweinidogion Cymru i fenthyca, yn ddarostyngedig i reolaethau a therfynau Trysorlys EM, er mwyn:

- rheoli anwadalrwydd derbyniadau yn ystod y flwyddyn, lle mae incwm gwirioneddol y mis yn wahanol i'r derbyniadau a ragwelwyd ar gyfer y mis hwnnw;
- darparu balans gweithio yng Nghronfa Gyfunol Cymru er mwyn rheoli'r llif arian;
- ymdrin â gwahaniaethau rhwng rhagolwg y flwyddyn gyfan a'r derbyniadau alldro ynglŷn â threthi datganoledig; ac

- ariannu gwariant cyfalaf.

Mae is-adran 19(3) yn disodli is-adran (1) yn adran 121 o Ddeddf Llywodraeth Cymru:
- gan ailddeddfu gallu Gweinidogion Cymru i fenthyca dros dro oddi wrth Ysgrifennydd Gwladol Cymru i ddarparu balans gweithio yng Nghronfa Gyfunol Cymru ac i reoli anwadalrwydd derbyniadau yn ystod y flwyddyn; a
- gan ymestyn pwerau benthyca presennol Gweinidogion Cymru i gynnwys benthyca oddi wrth yr Ysgrifennydd Gwladol ar draws blynyddoedd er mwyn ariannu gwahaniaethau rhwng rhagolwg y flwyddyn lawn a derbyniadau alldro trethi datganoledig.

Mae is-adran (3) hefyd yn ychwanegu dwy is-adran newydd yn adran 121((1A) ac (1B)). Byddai is-adran (1A) yn galluogi Gweinidogion Cymru i fenthyca er mwyn ariannu gwariant cyfalaf, yn amodol ar gymeradwyaeth gan Drysorlys EM. Rhaid i'r benthyciad fod ar ffurf benthyciad naill ai o'r Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol (drwy'r Ysgrifennydd Gwladol) neu oddi wrth fenthyciwr arall, megis banc masnachol. Mae'r is-adran newydd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru fenthyca ar ffurf benthyciad, ac ni chaniateir iddynt ddyroddi giltiau na bondiau Cymreig.

Mae is-adran (10) yn mewnosod adran 122A newydd yn Neddf 2006 sy'n cynnwys darpariaethau ychwanegol ynglŷn â benthyca cyfalaf. Mae adran 122A(5), (6) a (7) yn cynnwys rheolau ychwanegol ar fenthyciadau Gweinidogion Cymru i ariannu gwariant cyfalaf. Mae is-adran (6) yn datgan bod Gweinidogion Cymru wedi'u gwahardd rhag morgeisio unrhyw eiddo neu osod arwystl arno fel gwarant am arian y maen nhw wedi'i fenthyg (ond nid yw hyn yn effeithio ar y rheol yn adran 121(3) o Ddeddf 2006 fod benthyciadau i'w codi ar Gronfa Gyfunol Cymru).

Cymal 20 – Diddymu'r pŵer benthyca presennol

Mae Cymal 20 yn diwygio Deddf Awdurdod Datblygu Cymru 1975, gan ddiddymu'r pŵer i fenthyca a roddodd y ddeddf honno i Weinidogion Cymru, a thrwy hynny mae'n dileu un o swyddogaethau Gweinidogion Cymru.

Mae is-adran (1) yn diddymu paragraff 3 (pŵer i Weinidogion Cymru fenthyca arian) a pharagraff 6 (pŵer i Drysorlys EM warantu arian a fenthycir o dan baragraff 3) yn Atodlen 3 i Ddeddf Awdurdod Datblygu Cymru 1975. Mae is-adran (2) yn datgan nad yw'r diddymiadau yn is-adran (1) yn effeithio ar atebolrwydd parhaus Gweinidogion Cymru i ad-dalu arian a fenthycwyd yn flaenorol o dan baragraff 3, nac ar unrhyw warant a roddwyd o'r blaen gan Drysorlys EM o dan baragraff 6.

Cymal 22 – Adroddiadau ar roi'r Rhan hon ar waith a sut mae'n gweithredu

Mae Cymal 22 yn nodi'r gofynion bod rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru gyflwyno adroddiad ynglŷn â rhoi'r darpariaethau ariannol newydd a nodir yn Rhan 2 o Fil Cymru ar waith a sut mae'r darpariaethau ariannol hynny'n gweithredu.

Mae Cymal 22(1) a (3) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol gyhoeddi adroddiad ynglŷn â rhoi'r darpariaethau ariannol yn Rhan 2 ar waith a sut mae'r darpariaethau hynny'n gweithredu o fewn blwyddyn ar ôl i'r Ddeddf gael ei phasio a phob blwyddyn wedyn cyn pen-blwydd pasio'r Ddeddf. Mae is-adran (4) yn datgan bod rhaid i'r adroddiadau hyn barhau tan flwyddyn ar ôl i'r pwerau trethu a'r pwerau benthyca gael eu trosglwyddo'n llawn i'r Cynulliad a Gweinidogion Cymru. Rhaid gosod copïau o'r adroddiadau gerbron dau Dŷ'r Senedd a'u hanfon at Weinidogion Cymru, y mae'n rhaid iddyn nhw osod yr adroddiadau gerbron y Cynulliad

Mae is-adrannau (2) a (3) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio a gosod gerbron y Cynulliad adroddiadau o'r un math ac at yr un amserlen, a rhoi copi o bob adroddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol i'w osod gerbron dau Dŷ'r Senedd.

Mae is-adrannau (5) a (6) yn nodi sut y penderfynir bod un o ddarpariaethau Rhan 2 yn cael ei rhoi ar waith er mwyn penderfynu pa mor hir y mae'n rhaid i'r adroddiadau barhau, ac mae is-adran (7) yn nodi'r meysydd y mae'n rhaid i bob adroddiad eu cynnwys.

Cymal 23 – Awdurdodau tai lleol: terfynau ar ddyled y cyfrif refeniw tai

Mae is-adran (1) yn diwygio Rhan 6 (Cyllid Tai) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 ("Deddf 1989"), o ran sut y byddai'r Rhan honno o Ddeddf 1989 yn berthnasol yng Nghymru. Wrth wneud hynny, mae'r ddarpariaeth newydd yn adlewyrchu effaith adrannau 171 i 173 o Ddeddf Lleoliaeth 2011 sy'n gymwys yn Lloegr yn unig.

Mae is-adran (2) yn cyflwyno adran 76A newydd (Terfynau ar ddyledion) yn Neddf 1989. Mae adran 76A yn rhoi pwerau: (i) i Drysorlys EM i wneud penderfyniad sy'n darparu ar gyfer uchafswm y ddyled tai y caniateir ei chynnal, ar y cyd, gan Awdurdodau Tai Lleol ("LHAs") yng Nghymru sydd â chyfrif refeniw tai, a (ii) i Weinidogion Cymru i benderfynu ar swm y ddyled tai y mae'n rhaid trin LHA unigol fel pe bai'n ei chynnal ac uchafswm y ddyled tai o'r fath y caniateir i LHA ei chynnal. Mae adran 76A yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud penderfyniad ynglŷn â phob LHA o fewn cyfnod amser o 6 mis sy'n dechrau y diwrnod ar ôl i Drysorlys EM wneud penderfyniad. Rhaid i gyfanswm y symiau o ddyled a gynhelir gan bob LHA beidio â bod yn fwy na "chap Cymru gyfan" a bennir ym mhenderfyniad Trysorlys EM. Hefyd byddai'n anghyfreithlon i LHA fynd y tu hwnt i'w derfyn benthyca unigol.

Mae is-adran (2) hefyd yn cyflwyno adran 76B newydd (pŵer i sicrhau gwybodaeth) yn Neddf 1989. Mae adran 76B yn rhoi pwerau newydd i Weinidogion Cymru i sicrhau gwybodaeth sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i gyflawni eu swyddogaethau o dan adran 76A. Mae adran 76B yn gosod dyletswydd ar bob awdurdod tai lleol i roi gwybodaeth a thystysgrifau sy'n ategu'r wybodaeth hon i Weinidogion Cymru.

Mae is-adrannau (3) i (7) yn gwneud mân newidiadau i adran 87 o Ddeddf 1989.

Cymal 24 - Gwaith Comisiwn y Gyfraith i'r graddau y mae'n ymwneud â Chymru

Mae Cymal 24 yn mewnosod darpariaethau newydd yn Neddf Comisiynau'r Gyfraith 1965 ("Deddf 1965") er mwyn gosod dyletswydd newydd ar Gomisiwn y Gyfraith i roi gwybodaeth a chyngor yn uniongyrchol i Weinidogion Cymru. Mae'n egluro y byddai Gweinidogion Cymru'n gallu cyfeirio materion diwygio'r gyfraith at Gomisiwn y Gyfraith eu hunain.

Mae Cymal 24(4) yn mewnosod adran 3C newydd yn Neddf 1965 i ddarparu bod rhaid i Weinidogion Cymru lunio adroddiad blynyddol i'w osod gerbron y Cynulliad. Rhaid i'r adroddiad gynnwys manylion unrhyw gynigion gan Gomisiwn y Gyfraith sy'n ymwneud â materion Cymreig sydd wedi'u datganoli ac sydd naill ai wedi'u gweithredu ers yr adroddiad diwethaf neu sydd eto i'w gweithredu. Os cafwyd cynigion yn y flwyddyn flaenorol sydd eto i'w gweithredu, rhaid i adroddiad Gweinidogion Cymru gynnwys cynlluniau ar gyfer gweithredu, unrhyw benderfyniad i beidio â gweithredu, a'r rhesymau dros unrhyw benderfyniad o'r fath. Os nad oes cynigion gan Gomisiwn y Gyfraith sydd heb eu cwblhau ynglŷn â materion Cymreig sydd wedi'u datganoli yn y flwyddyn ers yr adroddiad blaenorol, ni fydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio adroddiad i'r Cynulliad

Mae is-adran (4) hefyd yn darparu ar gyfer protocol ynghylch gwaith Comisiwn y Gyfraith o ran Cymru, i'w gytuno rhwng Comisiwn y Gyfraith a Gweinidogion Cymru at ddibenion gwaith Comisiwn y Gyfraith ynglŷn â materion Cymreig sydd wedi'u datganoli. O fwrw ymlaen â phrotocol, rhaid i Weinidogion Cymru a Chomisiwn y Gyfraith ei adolygu o dro i dro a rhaid i Weinidogion Cymru osod y protocol (ac unrhyw ddiwygiadau iddo) gerbron y Cynulliad. Rhaid i Weinidogion Cymru a Chomisiwn y Gyfraith roi sylw i'r protocol.

Yn olaf, mae is-adran (5) o Gymal 24 yn gwneud mân ddiwygiad i adran 5(4) o Ddeddf 1965 sy'n egluro y byddai Gweinidogion Cymru'n gallu talu am wasanaethau Comisiwn y Gyfraith.

Atodlen 1 – Refferendwm ynghylch cychwyn y darpariaethau treth incwm

Mae Atodlen 1 yn nodi fframwaith ar gyfer cynnal refferendwm ynghylch dod â'r darpariaethau treth incwm i rym. Yn unol â Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000, mae'n ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â'r Comisiwn Etholiadol ynghylch eglurder y cwestiwn refferendwm sydd i'w gynnwys ar y papur pleidleisio. Rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol anfon copi o'r adroddiad, gan gynnwys barn y Comisiwn, fel y'i gosodwyd yn y Senedd at Brif Weinidog Cymru. Mae paragraff 3(4) o Atodlen 1 yn nodi bod rhaid i Brif Weinidog Cymru osod copi ohono gerbron y Cynulliad, cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl iddo gael yr adroddiad.

Rhaid i Orchymyn sy'n caniatáu ar gyfer cynnal refferendwm bennu dyddiad y bleidlais. Mae paragraff 4(2) yn nodi y caiff yr Ysgrifennydd Gwladol (neu Arglwydd Lywydd y Cyfrin Gyngor) amrywio'r dyddiad hwnnw, drwy orchymyn, os yw'n ymddangos ei bod yn amhriodol ei gynnal ar y dyddiad hwnnw. Serch hynny, rhaid i Weinidogion Cymru gydsynio i orchymyn o'r fath gael ei wneud.

Y sail resymegol dros gynnwys y darpariaethau hyn yn y Bil hwn ar lefel y Deyrnas Unedig

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol i'r darpariaethau hyn gael eu gwneud, a'u gwneud drwy gyfrwng Bil Cymru, am na allai'r darpariaethau gael eu gwneud drwy Ddeddf Cynulliad.

Mae'r rhan fwyaf o'r darpariaethau a gynhwyswyd uchod yn cydategu'r cymhwysedd deddfwriaethol ehangach ynglŷn â threthi datganoledig sy'n cael ei roi i'r Cynulliad a'r pwerau benthyca sy'n cael eu rhoi i Weinidogion Cymru drwy gyfrwng Bil Cymru, neu mae eu hangen er mwyn i'r darpariaethau eraill i weithio'n effeithiol.

Ar gais Llywodraeth Cymru y cafodd y cymal yn y Bil ynglŷn â Chomisiwn y Gyfraith ei gynnwys.

Mae Cymal 23 ynglŷn â'r terfynau ar ddyledion y cyfrif refeniw tai yn adlewyrchu rhan hanfodol o'r cytundeb a wnaed rhwng Trysorlys EM a Gweinidogion Cymru, a bydd yn galluogi awdurdodau tai lleol Cymru i ymadael â system bresennol Cymhorthdal y Cyfrif Refeniw Tai.

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL - BIL CYMRU

Nodyn Cyngor Cyfreithiol

Cefndir

1. Ar 1 Mai 2014, gosododd Jane Hutt AC, y Gweinidog Cyllid, Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ("y Memorandwm") ynghylch Bil Cymru ("y Bil") yn unol â Rheol Sefydlog 29.2. Cafodd datganiad ysgrifenedig sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 30 hefyd ei osod ar 1 Mai, gan nodi'r addasiadau i swyddogaethau Gweinidogion Cymru sydd y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, ac felly nad ydynt yn ymwneud â'r Memorandwm.

2. Cafodd y Memorandwm ei drafod ar 6 Mai 2014 gan y Pwyllgor Busnes, a gytunodd i'w gyfeirio at y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol a'r Pwyllgor Cyllid. Mae'n rhaid i'r Pwyllgorau gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad erbyn 26 Mehefin 2014 fel y gellir trafod y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol yn y Cyfarfod Llawn ar 1 Gorffennaf 2014.

Y Bil

3. Cyflwynwyd y Bil yn Nhŷ'r Cyffredin ar 20 Mawrth 2014, a chwblhaodd ei gyfnod pwyllgor ar 6 Mai. Gellir gweld y Bil, fel y'i diwygiwyd, yma:

http://www.publications.parliament.uk/pa/bills/cbill/2013-2014/0205/14205
Mae'r Memorandwm yn ystyried y Bil fel y'i diwygiwyd.

Crynodeb o'r Bil a'i Amcanion Polisi

4. Noddir y Bil gan Swyddfa Cymru. Prif amcanion polisi'r Bil yw gwneud y Cynulliad Cenedlaethol ("y Cynulliad") a Llywodraeth Cymru yn fwy atebol i bobl Cymru am godi'r arian y maent yn ei wario, a gwella'r system etholiadau ar gyfer y Cynulliad.

5. Mae pedair rhan a dwy Atodlen i'r Bil:
Mae Rhan 1, cymalau 1 i 5, yn gwneud newidiadau sy'n ymwneud ag amlder etholiadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Cynhelir yr etholiadau cyffredinol i'r Cynulliad bob pum mlynedd (gan osgoi gwrthdaro ag etholiadau 2020 ac etholiadau dilynol San Steffan). Caiff y gwaharddiad ar ymgeisyddiaeth ddeuol ei ddileu, yn ogystal â'r gwelliannau a wnaed i'r darpariaethau sy'n ymwneud â'r arfer o fod yn Aelod Cynulliad ac yn Aelod Seneddol ar yr un pryd. Caiff Llywodraeth Cynulliad Cymru ei hailenwi'n Llywodraeth Cymru, a diwygir Deddf Llywodraeth Cymru i egluro bod Prif Weinidog Cymru yn cadw ei swydd yn ystod cyfnod diddymu.
Mae Rhan 2, cymalau 6 i 22, yn sefydlu trefniadau newydd ar gyfer trethu a benthyca. Mae'n datganoli'r cyfrifoldeb am dreth ar drafodion tir a gwaredu i safleoedd tirlenwi, yn diwygio pwerau benthyca Gweinidogion Cymru, ac yn creu'r posibilrwydd, yn amodol ar gymeradwyaeth mewn refferendwm, o ostyngiad o 10 ceiniog yn y dreth incwm ym mhob band treth, ynghyd â'r pŵer i'r Cynulliad, drwy benderfyniad, gyflwyno cyfradd o dreth incwm yn lle hynny yng Nghymru. Mae hefyd yn creu'r posibilrwydd o drethi datganoledig newydd, ac yn sicrhau cymhwysedd i ddeddfu ar weithdrefnau cyllidebol.
Mae Rhan 3, cymalau 23 a 24, yn cwmpasu dau fater amrywiol:
terfynau ar ddyledion cyfrifon refeniw tai, a'r gydberthynas rhwng Comisiwn y Gyfraith a sefydliadau datganoledig Cymru.
Mae Rhan 4, cymalau 25 i 29, yn nodi pryd y daeth y Bil i rym, beth mae'n ei gwmpasu, a materion eraill.
Mae Atodlen 1 yn rhoi manylion am y refferendwm dreth, tra bod Atodlen 2 yn cwmpasu'r gwelliannau a ddaeth yn sgîl datganoli'r dreth ar drafodion tir.

Y darpariaethau yn y Bil y gwneir cais am gydsyniad ar eu cyfer

6. Mae'r darpariaethau yn y Bil sy'n addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad ac y gwneir cais am gydsyniad ar eu cyfer yng nghymalau 6, 7, 14, 17 a 21. Nid oes unrhyw ddarpariaethau sy'n dod o fewn cymhwysedd presennol y Cynulliad. Nodir sylwebaeth Llywodraeth Cymru ar yr adrannau hyn yn y Memorandwm. Gellir crynhoi sut y maent yn ychwanegu at gymhwysedd y Cynulliad fel a ganlyn -

- Mae cymal 6 yn darparu'r strwythur lle gall Llywodraeth Cymru ddeddfu ar faterion sy'n ymwneud â'r dreth.
- Mae cymal 7 yn cyflwyno gwelliannau i Rannau 2 a 3 o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru sy'n galluogi'r Cynulliad, gyda chydsyniad y Trysorlys, i ddileu neu newid swyddogaethau Cyllid a Thollau EM pan fo'r swyddogaethau hynny'n ymwneud â threthi datganoledig.
- Byddai cymal 14 (ynghyd â chymal 15) yn caniatáu i Lywodraeth Cymru a'r Cynulliad gyflwyno treth yng Nghymru ar drafodion sy'n ymwneud â buddiannau mewn tir. Byddai hyn yn gysylltiedig â datgymhwyso treth dir y dreth stamp yng Nghymru. Bydd yr Aelodau'n awyddus i nodi bod cyflwyno treth yng Nghymru yn dibynnu ar ddatgymhwyso treth dir y dreth stamp a fydd o'r dyddiad "dod i rym" h.y. dyddiad a ddarperir ar ei gyfer mewn gorchymyn a wneir gan y Trysorlys.
- Mae cymal 17 yn cynnwys darpariaethau yn Neddf Llywodraeth Cymru sy'n nodi cwmpas y pŵer newydd i gyflwyno treth ar achosion o waredu i safleoedd tirlenwi yng Nghymru. Yn yr un modd â threth dir y dreth stamp, caiff treth tirlenwi bresennol y DU ei datgymhwyso yn unol â gorchymyn a wneir gan y Trysorlys, nid gan Weinidogion Cymru.
- Mae cymal 21 yn diwygio Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru drwy ymgynghori ar gymhwysedd y Cynulliad i ddeddfu ar gyfer ei weithdrefnau cyllidebol ei hun. Mae hyn yn cynnwys y gallu i ddiwygio rhai 'darpariaethau gwarchodedig' ar hyn o bryd o Ddeddf Llywodraeth Cymru, h.y. adrannau 120(2), a 125 i 128. Bydd hefyd yn caniatáu gwelliant i adran 119 mewn perthynas â'r taliadau amcangyfrifedig ar gyfer blwyddyn ariannol i Gronfa Gyfunol Cymru neu i Weinidogion Cymru, Prif Weinidog Cymru neu'r Cwnsler Cyffredinol. Caniateir diwygio adran 159 neu Ran 5 o Atodlen 7 pan fo hynny'n digwydd mewn cysylltiad â, neu o ganlyniad i, ddarpariaeth Deddf

Cynulliad sy'n ymwneud â gweithdrefnau cyllidebol neu drethi datganoledig, a bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn cydsynio i'r ddarpariaeth.
Byddai cymal 21 yn galluogi'r Cynulliad i ddeddfu mewn perthynas â gweithdrefnau ar gyfer craffu a phennu cyllideb flynyddol Gweinidogion Cymru a "phersonau perthnasol" eraill. Byddai'n caniatáu ar gyfer proses sy'n fwy cyfannol a fyddai'n awdurdodi gwariant, cyfraddau trethiant (e.e. mewn perthynas â threthi datganoledig newydd) a benthyca.

Addasu swyddogaethau Gweinidogion Cymru

7. Mae'r Datganiad Ysgrifenedig a osodwyd gan y Gweinidog Cyllid yn nodi sut y mae'r Bil yn addasu swyddogaethau Gweinidogion Cymru. Gellir eu crynhoi fel a ganlyn:-

- Mae cymal 8 yn rhoi pŵer i bennu, drwy benderfyniad, cyfradd y dreth incwm yng Nghymru, ar gyfer trethdalwyr Cymru. Mewn gwirionedd, nid addasiad mo hwn o swyddogaeth Gweinidogion, gan mai hawl y Cynulliad, drwy benderfyniad, yw pennu cyfradd y dreth incwm yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol bod Rheolau Sefydlog y Cynulliad yn darparu mai dim ond Prif Weinidog Cymru neu un o Weinidogion Cymru all wneud cynnig i benderfynu ynghylch y gyfradd yng Nghymru. Efallai yr hoffai'r Aelodau nodi, er bod y Bil drafft yn sicrhau'r 'cam clo', mae'r cyfraddau sylfaenol, uwch ac ychwanegol ar gyfer y dreth incwm yng Nghymru yn egluro y gall y Cynulliad amrywio pob cyfradd treth incwm, ond mae'n rhaid i amrywiad o'r fath fod yr un pwynt canran. Dim ond at gyfradd y dreth incwm yng Nghymru yr oedd yr ymgynghoriad drafft yn cyfeirio ati, a gallai fod wedi'i dehongli fel un gyfradd sefydlog o dreth incwm ar gyfer yr holl drethdalwyr yng Nghymru.
- Mae cymal 12 yn darparu dull lle gall y Cynulliad alw am refferendwm ar gael cyfradd treth incwm ar wahân yng Nghymru. Mae'r weithdrefn hon yn debyg i honno a oedd yn gymwys pan ddaethpwyd â Rhan 4 o Ddeddf Llywodraeth Cymru i rym.
- Mae cymal 16 yn ei gwneud yn ofynnol rhoi gwybodaeth i Cyllid a Thollau EM am drafodion tir yng Nghymru gan na fydd y wybodaeth hon ar gael i Cyllid a Thollau EM mwyach o ffurflenni trafodion tir.
- Mae cymal 19 yn addasu Deddf Llywodraeth Cymru i ddiwygio'r amgylchiadau lle gall Gweinidogion Cymru fenthyca, ac mae'n nodi'r rheolaethau a'r cyfyngiadau ar fenthyciadau o'r fath a gaiff eu caniatáu i reoli

anwadalrwydd derbyniadau o fewn blwyddyn, darparu balans gweithio, ymdrin â'r gwahaniaethau rhwng rhagolygon ar gyfer y flwyddyn gyfan a derbyniadau alldro ar gyfer trethi datganoledig ac i ariannu gwariant cyfalaf.

- Mae cymal 20 yn diddymu'r ddarpariaeth fenthyca bresennol a nodir yn Neddf Awdurdod Datblygu Cymru 1975.
- Mae cymal 22 yn nodi'r gofynion ar gyfer yr Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru i gyflwyno adroddiad ar roi'r ddarpariaeth ariannol newydd a nodir yn Rhan 2 o'r Bil ar waith, a'i gweithredu.
- Mae cymal 23 yn caniatáu i'r Trysorlys bennu uchafswm ar y lefel uchaf o ddyled tai y gellir ei dal yn ei chrynswth, gan awdurdodau tai lleol yng Nghymru ac yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru benderfynu faint o ddyled tai y gall pob awdurdod tai ei dal o fewn yr uchafswm hwnnw. Mae hyn yn sefydlu system debyg i honno sy'n gweithredu yn Lloegr.
- Mae cymal 24 yn rhoi dyletswydd ar Gomisiwn y Gyfraith i roi cyngor a gwybodaeth i Weinidogion Cymru yn uniongyrchol ac yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyfeirio materion o ran diwygio'r gyfraith at y Comisiwn.
- Mae Atodlen 1 yn nodi'r fframwaith ar gyfer cynnal refferendwm wrth ddod â'r darpariaethau ar gyfer y dreth incwm i rym.

Y rhesymau dros ddefnyddio'r Bil

8. Nid yw'r darpariaethau y cyfeirir atynt yn y Memorandwm o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad ar hyn o bryd, ond maent yn addasu'r cymhwysedd hwnnw drwy ei ymestyn ar gyfer y dyfodol. Mae'r darpariaethau'n gweithredu nifer o'r argymhellion a wnaed gan Gomisiwn Silk yn ei adroddiad cyntaf, a dderbyniwyd yn eu cyfanrwydd gan Lywodraeth Cymru. Mae'r darpariaethau y cyfeirir atynt yn y Datganiad Ysgrifenedig yn atodol i'r cymhwysedd deddfwriaethol ehangach mewn perthynas â'r trethi a'r trefniadau benthyca datganoledig a gyflwynir i'r Cynulliad a Gweinidogion Cymru yn y drefn honno, neu sy'n ofynnol er mwyn i'r darpariaethau eraill weithio'n effeithiol.

Materion sy'n arbennig o berthnasol i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

9. Mae cymal 3 o'r Bil yn nodi y gellir datgymhwyso Aelodau Seneddol rhag bod yn Aelodau'r Cynulliad hefyd. Tra bod y cymal o ddiddordeb cyffredinol yng nghyd-destun y Pwyllgor i ddarpariaethau datgymhwyso, mae hefyd yn cynnwys cynseiliau defnyddiol i ddatgymhwyso ar ôl etholiad yn unig. Dim ond wyth diwrnod ar ôl etholiad y Cynulliad y mae'r datgymhwysiad yn effeithiol, sy'n rhoi cyfle i Aelod Seneddol presennol 'ymddiswyddo' o'r Senedd. Mae'n rhaid i Aelodau sydd am roi'r gorau i'w sedd gael eu penodi i un o ddwy swydd â thâl y Goron, a gedwir at y diben hwn yn unig, sef Stiward a Beili'r Goron ar gyfer Chiltern Hundreds a Stiward a Beili'r Goron ar gyfer Maenor Northstead. Efallai y bydd y Pwyllgor am drafod a yw hwn yn ddull yr hoffai ei argymell mewn achosion eraill.

10. Mae cymal 24 o'r Bil yn cyflwyno darpariaethau ar gyfer Comisiwn y Gyfraith i roi cyngor a chymorth i Weinidogion Cymru. Fodd bynnag, nid yw'n cyfeirio at "raglen gynhwysfawr o gydgrynhoi a diwygio'r gyfraith statud mewn meysydd datganoledig", fel y gwnaeth y Comisiwn gais amdano yn ei gyflwyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol.

12. Mae cymal 6 y Bil yn cynnwys pŵer i ychwanegu trethi datganoledig newydd drwy Orchymyn yn y Gyfrin Gyngor, y mae'n rhaid i benderfyniad y Cynulliad ei gymeradwyo. Fodd bynnag, mae cychwyn y darpariaethau sy'n ymwneud â threthi datganoledig yn dibynnu ar orchmynion a wneir gan y Trysorlys lle nad oes gan y Cynulliad na Gweinidogion Cymru ran i'w chwarae ynddynt. Yn yr un modd, os bydd pleidlais gadarnhaol yn y refferendwm, caiff y darpariaethau ar gyfer y dreth incwm eu cychwyn gan y Trysorlys, nid Gweinidogion Cymru; mae hyn yn wahanol i'r refferendwm diwethaf.

13. Mae'r Memorandwm hwn a'r datganiad ategol wedi tynnu sylw at fwlch yn Rheolau Sefydlog presennol y Cynulliad. Mae angen Memorandwm ar Reol Sefydlog 29 mewn perthynas â materion o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, neu sy'n addasu'r cymhwysedd hwnnw. Mae angen datganiad ar Reol Sefydlog 30 pan fo Bil San Steffan yn cynnig diwygio swyddogaethau Gweinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol. Nid yw'r naill Reol Sefydlog na'r llall yn cwmpasu addasiadau i swyddogaethau'r Cynulliad, ar wahân i'w gymhwysedd deddfwriaethol. O ganlyniad i hyn, nid yw'r pŵer a geir yng nghymal 8 i alluogi'r Cynulliad, drwy benderfyniad, i bennu'r gyfradd yng Nghymru at y diben o gyfrifo cyfraddau'r dreth incwm, wedi'i

gynnwys yn y naill Reol Sefydlog na'r llall, er ei fod yn ychwanegiad arwyddocaol iawn i bwerau'r Cynulliad.

Casgliad

13. Ni allai'r darpariaethau y cyfeiriwyd atynt yn y Memorandwm a'r Datganiad Ysgrifenedig gael eu gwneud gan Ddeddf Cynulliad, ac felly mae'n briodol bod y Bil a'r Memorandwm yn mynd i'r afael â'r materion hyn.

Y Gwasanaethau Cyfreithiol 12 Mai 2014

Eitem 6

Cyfeirnod y Pwyllgor: CLA(4)-14-14

Cynulliad Cenedlaethol Cymru | National Assembly for Wales

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Adroddiad monitro sybsidiaredd gwanwyn 2014 (Medi 2013–Ebrill 2014

Dyddiad y papur:	**Mai 2014**

Cynhyrchwyd y papur briffio hwn gan y Gwasanaeth Ymchwil at ddefnydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Stephen Boyce yn y Gwasanaeth Ymchwil
Estyniad ffôn 8095
E-bost: Stephen.boyce@cymru.gov.uk

Research Service

Cynnwys

1. Rhagymadrodd

O dan Reol Sefydlog 21, mae gan 'bwyllgor cyfrifol' yn y Cynulliad (sef y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar hyn o bryd) bŵer i ystyried deddfwriaeth ddrafft yr UE sy'n ymwneud â materion sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad neu â swyddogaethau Gweinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol, er mwyn gweld a yw'n cydymffurfio ag egwyddor sybsidiaredd.

Ymgorfforwyd egwyddor sybsidiaredd yn Erthygl 5 o Gytuniad yr Undeb Ewropeaidd:

> 1. The limits of Union competences are governed by the principle of conferral. The use of Union competences is governed by the principles of subsidiarity and proportionality.
>
> 2. Under the principle of conferral, the Union shall act only within the limits of the competences conferred upon it by the Member States in the Treaties to attain the objectives set out therein. Competences not conferred upon the Union in the Treaties remain with the Member States.
>
> 3. Under the principle of subsidiarity, in areas which do not fall within its exclusive competence, the Union shall act only if and in so far as the objectives of the proposed action cannot be sufficiently achieved by the Member States, either at central level or at regional and local level, but can rather, by reason of the scale or effects of the proposed action, be better achieved at Union level.
>
> The institutions of the Union shall apply the principle of subsidiarity as laid down in the Protocol on the application of the principles of subsidiarity and proportionality. National Parliaments ensure compliance with the principle of subsidiarity in accordance with the procedure set out in that Protocol.
>
> 4. Under the principle of proportionality, the content and form of Union action shall not exceed what is necessary to achieve the objectives of the Treaties.
>
> The institutions of the Union shall apply the principle of proportionality as laid down in the Protocol on the application of the principles of subsidiarity and proportionality.[1]

Yn ychwanegol, mae'r modd y cymhwysir yr egwyddor yn cael ei lywodraethu gan y Protocol ar Gymhwyso Egwyddorion Sybsidiaredd a Chymesuredd. Mae'r rhan sy'n berthnasol o ran gwaith y Cynulliad wedi'i chynnwys ym mharagraff cyntaf Erthygl 6:

> Any national Parliament or any chamber of a national Parliament may, within eight weeks

[1] Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd, *Consolidated version of the Treaty on European Union*, C83/204, 30 Mawrth 2010

> from the date of transmission of a draft legislative act, in the official languages of the Union, send to the Presidents of the European Parliament, the Council and the Commission a reasoned opinion stating why it considers that the draft in question does not comply with the principle of subsidiarity. **It will be for each national Parliament or each chamber of a national Parliament to consult, where appropriate, regional parliaments with legislative powers.** *[pwyslais y Gwasanaeth Ymchwil]*[2]

2. Y broses monitro

I sicrhau bod y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn cyflawni ei swyddogaeth ynglŷn â monitro sybsidiaredd yn effeithiol fel y'i nodir yn y Rheolau Sefydlog, mae swyddogion y Cynulliad yn monitro holl gynigion drafft yr UE ar gyfer deddfwriaeth sy'n gymwys i Gymru. Gwneir hyn mewn modd systemataidd er mwyn gweld a ydyn nhw'n codi pryderon o ran sybsidiaredd. Mae'r modd y mae swyddogion y Cynulliad yn monitro'r cynigion hyn wedi'i amlinellu isod er gwybodaeth:

- Yn y lle cyntaf, mae'r Cynulliad yn cael gwybod am bob cynnig a gyhoeddir gan y Comisiwn Ewropeaidd i'w ystyried drwy gyfrwng rhestr (sy'n cael ei hadnabod fel y "rhestr sypiau"). Anfonir hon gan y Swyddfa Dramor a Chymanwlad ar ran Llywodraeth y Deyrnas Unedig at Wasanaeth Ymchwil y Cynulliad er gwybodaeth.
- Wedyn bydd yr adran berthnasol o Lywodraeth y Deyrnas Unedig yn paratoi Memorandwm Esboniadol (EM) ar sail y cynigion yn y rhestr sypiau a hynny fel arfer o fewn pedair i chwe wythnos ar ôl hysbysiad cychwynnol y Swyddfa Dramor a Chymanwlad. Mae pob EM yn cynnwys asesiad o effaith y cynigion ar bolisïau (gan gynnwys a yw'r adran o Lywodraeth y Deyrnas Unedig yn credu bod y cynnig yn codi unrhyw bryderon ynglŷn â sybsidiaredd). Mae copïau o bob EM yn cael eu hanfon at y Cynulliad drwy'r Gwasanaeth Ymchwil.
- Mae'r Gwasanaeth Ymchwil yn hidlo'r EMs sy'n dod i law i weld a yw'r cynigion dan sylw yn gynigion ynglŷn â deddfwriaeth neu beidio[3] ac a ydyn nhw'n cynnwys materion a allai fod o ddiddordeb i'r Cynulliad (hynny yw, yn ymwneud â materion datganoledig).
- Wedyn mae'r EMs hynny sy'n ymwneud â chynigion ynglŷn â deddfwriaeth ac sy'n ymdrin â materion sydd o ddiddordeb i'r Cynulliad yn cael eu gwirio ymhellach gan

[2] Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd, *Protocol on the Application of the Principles of Subsidiarity and Proportionality*, C310/207, 16 Rhagfyr 2004

[3] Dim ond o ran cynigion drafft sy'n ymwneud â deddfwriaeth y caniateir codi pryderon o ran sybsidiaredd.

swyddogion o Wasanaethau Cyfreithiol y Cynulliad, Swyddfa Brwsel a'r Gwasanaeth Ymchwil i weld a ydyn nhw'n codi unrhyw bryderon posibl o ran sybsidiaredd.

- Os bydd cynnig yn codi pryderon o safbwynt sybsidiaredd, bydd swyddogion y Cynulliad yn tynnu sylw'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ato ar unwaith. Gofynnir i'r Aelodau ystyried a ddylai'r Pwyllgor ofyn i'r naill Dŷ neu'r llall neu i'r ddau Dŷ yn San Steffan roi 'barn resymedig' ar y cynnig neu beidio.
- Wedyn mae'r cynigion hynny sy'n ymwneud â deddfwriaeth ac sy'n ymwneud â materion datganoledig ond nad ydyn nhw'n codi pryderon o ran sybsidiaredd yn cael eu coladu mewn adroddiad monitro sy'n cael ei gynhyrchu gan y Gwasanaeth Ymchwil, sef adroddiad sy'n cael ei ystyried fel papur i'w nodi gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn ystod pob tymor ym mlwyddyn y Cynulliad (Hydref [Medi-Rhagfyr], Gwanwyn [Ionawr-Ebrill] a Haf [Mai-Awst]).

Mae'r adroddiad hwn felly yn cynnwys trosolwg cyffredinol o'r cynigion deddfwriaethol drafft gan yr UE a daeth i law Gwasanaeth Ymchwil y Cynulliad rhwng Medi 2013 ac Ebrill 2014. Mae'n darparu rhagor o wybodaeth am y cynigion hyn a nodwyd gan swyddogion y Cynulliad am eu bod yn ymwneud â deddfwriaeth ac â materion datganoledig.

Ond, sylwch mai cynigion ynglŷn â deddfwriaeth sy'n cael eu monitro'n bennaf yn yr adroddiad hwn. Ar y cyfan nid yw'n cynnwys manylion cynigion sydd heb fod yn ddeddfwriaethol ond a allai fod yn berthnasol i waith y Cynulliad. Mae'r rheiny'n cael eu monitro gan y Gwasanaeth Ymchwil ar wahân.

3. Trosolwg o gynigion drafft yr UE a ddaeth i law (Medi 2013-Ebrill 2014)

Cafodd Gwasanaeth Ymchwil y Cynulliad gyfanswm o 548 o EMs gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig ynglŷn â chynigion gan yr UE oddi wrth Lywodraeth y Deyrnas Unedig rhwng 1 Medi 2013 a 30 Ebrill 2014.

O'r rhain, nododd swyddogion y Cynulliad fod 15 EM yn ymwneud â deddfwriaeth ac o ddiddordeb i'r Cynulliad.

Wedi cael eu dadansoddi ymhellach gan swyddogion yng Ngwasanaeth Cyfreithiol y Cynulliad, Swyddfa Brwsel a'r Gwasanaeth Ymchwil, ni chafodd yr un o'r xx o gynigion ei nodi fel un a oedd yn codi pryderon o safbwynt sybsidiaredd. Ceir manylion y cynigion hyn isod.

3.1. Cynigion deddfwriaethol yr UE nad oedden nhw'n codi pryderon o ran sybsidiaredd

Dyddiad yr e-bost	Teitl a disgrifiad
06/09/2013	*Cynnig ar gyfer Rheoliad gan Senedd Ewrop a'r Cyngor yn diwygio Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1698/2005 ynghylch* ***cymorth i ddatblygu gwledig oddi wrth Gronfa Amaethyddiaeth Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig*** (COM(2013)521) Byddai'r rheoliad arfaethedig yn caniatáu i'r Aelod-wladwriaethau sy'n profi anawsterau ariannol difrifol dderbyn cynnydd mewn cymorth ariannol o'r gronfa o 10 pwynt canran uwchlaw'r trothwy arferol a ganiateir tan 31 Rhagfyr 2015.
24/09/2013	Cynnig ar gyfer Rheoliad gan Senedd Ewrop a'r Cyngor ynghylch ***atal a rheoli cyflwyniad a lledaeniad rhywogaethau estron ymledol.*** (COM(2013)620) Mae'r cynnig yn ei gwneud yn ofynnol i'r Aelod-wladwriaethau atal rhywogaethau estron ymledol rhag cael eu cyflwyno a'u lledaenu, sef rhywogaethau y cytunir ar restr ohonyn nhw o fewn 12 mis ar ôl i'r rheoliad ddod i rym.
03/10/2013	Cynnig ar gyfer Rheoliad gan Senedd Ewrop a'r Cyngor yn diwygio Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 718/1999 ynghylch ***polisi'r Gymuned ar allu'r fflyd i hybu trafnidiaeth ar ddyfrffyrdd mewndirol.*** (COM(2013)621) Sefydlodd Rheoliad (EC) Rhif 718/1999 Gronfa Dyfrffyrdd Mewndirol a oedd i'w defnyddio mewn achosion lle ceid 'aflonyddu difrifol ar y farchnad' yn y farchnad dyfrffyrdd mewndirol ac i wella amgylchedd gwaith y diwydiant. Nid yw'r gronfa wedi'i defnyddio eto a nod y diwygiad hwn ar Reoliad 718/1999 yw ehangu cwmpas y gronfa. Mae'n gam cyntaf tuag at roi

	cynllun gweithredu Ewropeaidd diwygiedig ("NIAIDES II") ar waith er mwyn symud rhagor o nwyddau i ddyfrffyrdd yr UE a lleihau allyriadau carbon. **Heb ei ddatganoli.**
14/10/2013	Cynnig ar gyfer **Rheoliad** gan Senedd Ewrop a'r Cyngor ynghylch sylweddau seicoweithredol newydd. (HO – disgwylir yr EM erbyn 8 Hydref) Nod y Rheoliad drafft fyddai cryfhau gallu'r UE i ymateb i sylweddau seicoweithredol newydd a chaniatáu i sylweddau niweidiol gael eu tynnu oddi ar y farchnad yn gyflym. Byddai'n disodli offeryn sydd eisoes yn bod, Penderfyniad y Cyngor 2005/387/JHA. **Heb ei ddatganoli.**
28/10/2013	Cynnig ar gyfer **Argymhelliad** gan y Cyngor ynghylch hybu iechyd – gwella gweithgarwch corfforol ar drws sectorau. (DOH/DCMS – disgwylir yr EM erbyn 24 Medi) Nod yr argymhelliad hwn yw mynd i'r afael â diffygion wrth ddatblygu a gweithredu polisïau gweithgarwch corfforol sy'n gwella iechyd (HEPA) gan yr Aelod-wladwriaethau. Mae'r rhain yn cynnwys yr angen i ddatblygu ymagweddau traws-sectoraidd a mabwysiadu amcanion a nodau clir ar gyfer HEPA, a monitro a gwerthuso polisïau a chyfraddau HEPA. **Heb fod yn ddeddfwriaethol.**
13/11/2013	Cynnig ar gyfer Rheoliad gan Senedd Ewrop a'r Cyngor yn sefydlu ***Cyfleuster Cysylltu Ewrop.*** (COM(2013)665) Yn 2011 cynigiodd y Comisiwn Ewropeaidd greu offeryn integredig newydd ar gyfer buddsoddi ym mlaenoriaethau seilwaith yr UE mewn trafnidiaeth, ynni a thelathrebu: "Cyfleuster Cysylltu Ewrop".
22/11/2013	Cynnig ar gyfer Rheoliad gan Senedd Ewrop a'r Cyngor yn diwygio Rheoliad (EC) Rhif 1166/2008 ynghylch ***arolygon strwythur ffermydd a'r arolwg o ddulliau cynhyrchu amaethyddol, o ran fframwaith ariannol y cyfnod 2014-2018.*** (COM(2013)757) Mae arolwg cymunedol ar strwythur daliadau amaethyddol yn ofynnol o dan

	Reoliad (EC) 1166/2008 yn 2016. Mae'r arolygon hyn yn cynnwys cyfraniad ariannol gan y Comisiwn Ewropeaidd at y treuliau a ysgwyddir gan yr Aelod-wladwriaethau. Mae'r gwelliant arfaethedig yn cadw lefel y cyfraniad yr un peth ar gyfer yr Aelod-wladwriaethau presennol ac yn cyflwyno cyfraniad newydd ar gyfer Croatia
22/11/2013	Cynnig ar gyfer Cyfarwyddeb newydd gan Senedd Ewrop a'r Cyngor yn diwygio *Cyfarwyddeb 94/62/EC ynghylch pecynnau a gwastraff pecynnau er mwyn lleihau nifer y bagiau siopa plastig ysgafn a ddefnyddir.* (COM(2013)761) Mae'r cynnig yn ei gwneud yn ofynnol i'r Aelod-wladwriaethau gymryd mesurau i leihau defnyddio bagiau siopa plastig ysgafn, o drwch diffiniedig, o fewn dwy flynedd ar ôl i'r Mesur ddod i rym. Mae Cymru wedi cyflwyno tâl am yr holl fagiau untro yn y pwynt gwerthu ac mae'r mesur hwn yn ymestyn y tu hwnt i'r bagiau siopa plastig ysgafn a gynhwysir yng nghynnig y Comisiwn. Bydd yn ddiddorol gweld sut mae'r ddeddfwriaeth derfynol yn effeithio ar ddeddfwriaeth bresennol Cymru (os bydd yn effeithio arni o gwbl) ac felly mae hyn yn codi cwestiwn ynglŷn â 'chymesuredd' y mesurau arfaethedig yn hytrach na chwestiwn 'sybsidiaredd'.
11/12/2013	Cynnig ar gyfer Rheoliad gan Senedd Ewrop a'r Cyngor ynghylch *darparu gwybodaeth a mesurau hybu ar gyfer cynhyrchion amaethyddol ar y farchnad fewnol ac mewn trydydd gwledydd.* (COM(2013)812) Nod y cynnig yw diwygio'r ffyrdd y mae cyllid yr UE yn hybu cynhyrchion amaethyddol yn yr UE ac mewn trydydd gwledydd. Câi ystod o fesurau eu cyflwyno a fyddai'n sicrhau bod mesurau hybu'n cael eu targedu'n well mewn marchnadoedd mewnol ac allanol drwy ddatblygu a gweithredu strategaeth, ymestyn y rhestr o fuddiolwyr a buddiolwyr posibl, hybu rhaglenni sy'n cynnwys mwy nag un Aelod-wladwriaeth, a defnydd cyfyngedig ar darddiadau a brandiau. Byddai cyllideb y gronfa'n cael ei

	chynyddu o €60m (£51m[4]) yn 2013 i €200m (£170m) erbyn 2020.
09/01/2014	Cynnig ar gyfer Argymhelliad gan y Cyngor ynghylch ***Fframwaith Ansawdd i Hyfforddeiaethau.*** (COM(2013)857) Mae'r Argymhelliad yn gofyn i'r Aelod-wladwriaethau sicrhau bod hyfforddeiaethau marchnad-agored (h.y. y rhai sy'n cynnwys yr hyfforddai a'r cyflogwr yn unig ac nid unrhyw sefydliad arall) yn cydymffurfio â set o ofynion ansawdd. Byddai'r cynnig yn cynnwys yn bennaf yr hyn y byddai'r Deyrnas Unedig yn ei alw yn 'interniaethau i raddedigion', ond fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd gallai gynnwys unrhyw fath o leoliad profiad gwaith nad yw'n rhan o addysg ffurfiol neu gwrs galwedigaethol. **Heb fod yn ddeddfwriaethol**
14/01/2014	Cynnig ar gyfer Cyfarwyddeb gan y Cyngor ynghylch ***gosod bwyd o glonau anifeiliaid ar y farchnad.*** (COM(2013)893) Nod y cynnig yw gwahardd marchnata clonau anifeiliaid ac embryonau ac unrhyw fwyd a gynhyrchir ohonynt.
14/01/2014	Cynnig ar gyfer Cyfarwyddeb gan Senedd Ewrop a'r Cyngor ynghylch ***clonio anifeiliaid o rywogaethau'r fuwch, y mochyn, y ddafad, yr afr a'r ceffyl a gedwir ac a atgenhedlir at ddibenion ffermio.*** (COM(2013)892) Nod y cynnig yw gwahardd clonio masnachol ar rywogaethau anifeiliaid fferm traddodiadol. Serch hynny, bydd y cynnig yn caniatáu parhau i ddefnyddio deunydd atgenhedlu o glonau at ddibenion bridio da byw; ymchwil wyddonol ar glonio a defnyddio clonio er mwyn cadw bridiau prin neu rywogaethau sydd mewn perygl; ac ar gyfer digwyddiadau chwaraeon neu ddigwyddiadau diwylliannol.
15/01/2014	*Cynnig ar gyfer Rheoliad gan Senedd Ewrop a'r Cyngor ynghylch* ***bwydydd***

[4] Mae pob ffigur ariannol wedi'i darparu drwy ddefnyddio cyfradd gyfnewid Swyddfa'r Cabinet ar gyfer Tachwedd 2013

	newydd. (COM(2013)894) Nod y rheoliad arfaethedig yw diweddaru'r rheoliad presennol ynghylch bwydydd newydd ac mae'n cynnwys eglurhad o'r diffiniad o fwyd newydd a gweithdrefn awdurdodi symlach ar gyfer bwydydd newydd.
21/01/2014	Cynnig ar gyfer Cyfarwyddeb gan Senedd Ewrop a'r Cyngor ynghylch ***cyfyngu allyriadau llygrynnau penodol i'r aer o safleoedd hylosgi canolig.*** (COM(2013)919) Byddai Cyfarwyddeb newydd yn rheoleiddio allyriadau o safleoedd hylosgi sydd â mewnbwn thermol o rhwng 1 a 50MW. Byddai hyn yn cynnwys safleoedd ynni ar gyfer adeiladau mawr a gosodiadau diwydiannol bach. Mae'r Gyfarwyddeb arfaethedig yn rhan o Becyn Polisi Aer Glân a fabwysiadwyd gan y Comisiwn ar 18 Rhagfyr 2013.
21/01/2014	*Cynnig ar gyfer Cyfarwyddeb gan Senedd Ewrop a'r Cyngor ynghylch* ***lleihau allyriadau cenedlaethol llygrynnau atmosfferig penodol ac yn diwygio Cyfarwyddeb 2003/35/EC.*** (COM(2013)920) Mae'r Gyfarwyddeb arfaethedig yn rhan o Becyn Polisi Aer Glân a fabwysiadwyd gan y Comisiwn ar 18 Rhagfyr 2013. Datblygwyd y pecyn yn sgil adolygiad o'r polisi ansawdd aer gan y Comisiwn a ddechreuodd yn 2011. Nod y pecyn yw diweddaru'r ddeddfwriaeth bresennol a lleihau eto ar allyriadau niweidiol o ddiwydiant, traffig, safleoedd ynni ac amaethyddiaeth, er mwyn lleihau eu heffaith sylweddol ar iechyd a'r amgylchedd
06/02/2014	*Cynnig ar gyfer Rheoliad gan y Cyngor yn nodi'r* ***lefelau uchaf a ganiateir o halogiad ymbelydrol mewn bwyd a phorthiant yn sgil damwain niwclear neu unrhyw achos arall lle ceir argyfwng radiolegol.*** (COM(2013)943) Mae'r cynnig yn cyfuno tri rheoliad presennol: Rheoliad y Cyngor (Euratom) Rhif 3954/87, Rheoliad y Comisiwn (Euratom) Rhif 944/89 a Rheoliad y Comisiwn (Euratom) Rhif 770/90. Mae hefyd yn diweddaru'r weithdrefn ar gyfer rhoi lefelau halogiad ymbelydrol ar waith yn sgil argyfwng niwclear neu

	radiolegol.
10/03/2014	*Cynnig ar gyfer Argymhelliad gan y Cyngor ynghylch* ***Egwyddorion Ansawdd Twristiaeth i Ewrop.*** (COM)(2014)85) Nod yr argymhelliad hwn yw sefydlu egwyddorion ansawdd i sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau twristiaeth gan ddangos ansawdd cyrchfannau twristaidd yn yr EU i ddefnyddwyr. **Heb fod yn ddeddfwriaethol**
08/04/2014	*Cynnig ar gyfer Rheoliad gan Senedd Ewrop a'r Cyngor ynghylch* ***cynhyrchu organig a labelu cynhyrchion organig****, yn diwygio Rheoliad (EU) Rhif XXX/XXX Senedd Ewrop a'r Cyngor a [Rheoliad Rheolaethau Swyddogol] y Cyngor ac yn diddymu Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 834/2007.* (COM(2014)180 Mae'r cynnig yn cynnwys rheoliad ac Asesiad Effaith newydd sy'n cwmpasu cynhyrchu organig a labelu cynhyrchion organig. Ceir Cynllun Gweithredu perthynol hefyd sy'n ystyried dyfodol cynhyrchu organig. Mae'r dogfennau wedi'u cynhyrchu yn sgil adolygiad gan y Comisiwn o'r fframwaith o ddeddfau a pholisïau ar gyfer cynhyrchu organig ledled yr UE. Does dim materion sybsidiaredd yn codi, ond fe fydd diddordeb yng Nghymru yng nghynnwys y cynigion a 'chymesuredd' y mesurau arfaethedig.

Review of the
Balance of Competences

CALL FOR EVIDENCE ON THE GOVERNMENT'S REVIEW OF THE BALANCE OF COMPETENCES BETWEEN THE UNITED KINGDOM AND THE EUROPEAN UNION

Semester 4

SUBSIDIARITY AND PROPORTIONALITY

Foreign and Commonwealth Office

Opening date: 27 March 2014

Closing date: 30 June 2014

Contents

1. Introduction

1.1 The Foreign Secretary launched the Balance of Competences Review in Parliament in July 2012, taking forward the Coalition commitment to examine the balance of competences between the UK and the European Union. The review will provide an analysis of what the UK's membership of the EU means for the UK national interest. It aims to deepen public and Parliamentary understanding of the nature of our EU membership and provide a constructive and serious contribution to the national and wider European debate about modernising, reforming and improving the EU in the face of collective challenges. It will not be tasked with producing specific recommendations or looking at alternative models for Britain's overall relationship with the EU.

1.2 The review is broken down into a series of reports on specific areas of EU competence, spread over four semesters between autumn 2012 and autumn 2014. The review is led by Government but will also involve non-governmental experts, organisations and other individuals who wish to feed in their views. Foreign Governments, including our EU partners and the EU Institutions, are also being invited to contribute. The process will be comprehensive, evidence-based and analytical. The progress of the review will be transparent, including in respect of the contributions submitted to it.

1.3 This call for evidence sets out the scope of the review which will cover the EU principles of Subsidiarity and Proportionality, as well as Article 352 of the Treaty on the Functioning of the European Union (TFEU) (the so-called "flexibility clause"). The report will look at the principles of Subsidiarity and Proportionality, how they developed, and how they are used today, assessing what this means for the UK and its national interest, as well as where future challenges and developments may lie.

1.4 As Subsidiarity and Proportionality are fundamental principles rather than distinct areas of competence, the scope of the report is expected to be broad, and to assess the impact of the principles in different policy areas. It will therefore draw heavily on previous work in this area, including previous Balance of Competences reports. Full details of the programme as a whole can be found at: http://www.gov.uk/review-of-the-balance-of-competences.

2. EU competence and principles

2.1 For the purposes of this review, we are using a broad definition of competence. Put simply, competence in this context is about everything deriving from EU law that affects what happens in the UK. That means examining all the areas where the Treaties give the EU competence to act, including the provisions in the Treaties giving the EU institutions the power to legislate, to adopt non-legislative acts, or to take any other sort of action. But it also means examining areas where the Treaties apply directly to the Member States without needing any further action by the EU institutions.

2.2 The EU's competences are set out in the EU Treaties, which provide the basis for any actions the EU institutions take. The EU can only act within the limits of the competences conferred on it by the Treaties, and where the Treaties do not confer competences on the EU they remain with the Member States.

2.3 There are different types of competence: exclusive, shared and supporting. Only the EU can act in areas where it has exclusive competence, such as the customs union and common commercial policy. In areas of shared competence, such as the single market, environment and energy, either the EU or the Member States may act, but the Member States may be prevented from acting once the EU has done so. And in other areas covered by the EU Treaties, the primary responsibility for action rests with Member States, with the EU playing a supporting role; action by the EU does not prevent the Member States from acting. In other areas, the EU has no competence.

2.4 The table below sets out the current state of EU competence after the changes made by the Treaty of Lisbon.

Exclusive Competence	Shared Competence	Supporting Competence
Customs union Competition policy within the internal market Monetary policy for eurozone members Conservation of marine biological resources Common commercial policy	Internal market Social policy Economic, social and territorial cohesion Agriculture and fisheries Environment Consumer protection Transport Trans-European networks Energy Area of freedom, security and justice Common safety concerns in public health matters	Protection and improvement of human health Industry Culture Tourism Education, vocational training, youth and sport Civil Protection Administrative cooperation

2.5 Subsidiarity and Proportionality are not types of competence, but rather fundamental principles which must be followed by the EU when it is exercising competence. The EU must act in accordance with fundamental rights as set out in the Charter of Fundamental Rights (such as freedom of expression and non-discrimination) and with the principles of Subsidiarity and Proportionality. Under the principle of Subsidiarity, where the EU does not have exclusive competence, it can only act if it is better placed than the Member States to do so because of the scale or effects of the proposed action. Under the principle of Proportionality, the content and form of EU action must not exceed what is necessary to achieve the objectives of the EU treaties.

2.6 Considering how these principles, as existing Treaty mechanisms to regulate EU action, work in practice is an essential starting point for considering future reform to how the EU operates and when it acts.

2.7 Both principles are “legal” principles in that the EU institutions are bound by them and cannot legally act in breach of them. However, given their nature, they

require significant political judgment as to whether proposed action can better be achieved by Member States, or whether specific EU action is necessary in order to meet a given objective. As considered in section 4 below, the EU courts have to date not struck down an EU law on the grounds that it breaches the principle of Subsidiarity.

2.8 Article 352 TFEU is similarly not a free-standing area of EU competence, and cannot be used to extend EU competence but rather provides a power for the EU to take action in support of EU objectives when other Treaty Articles do not suffice.

3. A brief history of the EU Treaties

3.1 The Treaty on the European Economic Community (EEC) was signed in Rome on 25 March 1957 and entered into force on 1 January 1958. The EEC Treaty had a number of economic objectives, including establishing a European common market. Since 1957 a series of treaties has extended the objectives of what is now the European Union beyond the economic sphere. The amending treaties (with the dates on which they came into force) are: the Single European Act (1 July 1987), which provided for the completion of the Internal Market by 1992; the Treaty on European Union – the Maastricht Treaty (1 November 1993), which covered matters such as justice and home affairs, foreign and security policy, and economic and monetary union; and the Treaty of Amsterdam (1 May 1999), the Treaty of Nice (1 February 2003) and the Treaty of Lisbon (1 December 2009), which made a number of changes to the institutional structure of the EU.

3.2 Following these changes, there are now two main treaties which together set out the competences of the European Union:

- The Treaty on European Union (TEU); and
- The Treaty on the Functioning of the European Union (TFEU).

4. Subsidiarity

4.1 The EU can only act (or "exercise competence") where it has been given the power to do so by its 28 Member States, in one of its Treaties. This is known as the principle of conferral – the powers the EU has are ones conferred on it by its Member States.

4.2 In areas where the EU and Member States share the right to act, how is it to be decided which of them should act? This is where the principle of Subsidiarity comes in, to clarify at which level decisions should be taken.

4.3 Subsidiarity is a cross-cutting principle in the EU context, applicable whenever there is a choice between EU and national (or regional or local) action. It regulates the exercise of powers at EU level. In areas of shared or supporting competence, the EU should act only where action at EU level is more effective than action taken at national, regional or local level. Article 5(3) of the Treaty on European Union provides:

"Under the principle of Subsidiarity, in areas which do not fall within its exclusive competence, the Union shall act only if and in so far as the objectives of the proposed action cannot be sufficiently achieved by the Member States, either at central level or at regional and local level, but can rather, by reason of the scale or effects of the proposed action, be better achieved at Union level."

Where these conditions are not met, it would be contrary to the principle of Subsidiarity for the EU to act.

4.4 As successive Treaties have given the EU powers to act in more policy areas, the principle of Subsidiarity has arisen in more contexts. These are considered in case studies below.

4.5 It is important to note that the principle of Subsidiarity does not apply to areas of **exclusive EU competence**. In these areas, only the EU is entitled to act. And so the issue of the objective being better met by Member States simply does not arise.

4.6 The principle of Subsidiarity might be understood as having the following aims:

- Seeks to protect the powers of Member States;
- Seeks to limit EU action to cases where it is really needed;
- Focuses attention on the best level for action to achieve objectives;
- Ensures that actions are taken by the appropriate actor and that decisions are taken as closely as possible to citizens.

4.7 Some indicative understandings of Subsidiarity may be useful:

- Decisions should be taken as close as possible to the citizen.

- "*European when necessary; national when possible*"[1]

- a presumption that, where there is a choice, action should be taken by Member States except where EU action can add value

- "*For me, Subsidiarity is not a technical concept. It is a fundamental democratic principle. [This]...demands that decisions are taken as openly as possible and as closely to the people as possible.*

  Not everything needs a solution at European level. Europe must focus on where it can add most value. Where this is not the case, it should not meddle. The EU needs to be big on big things and smaller on smaller things - something we may occasionally have neglected in the past. The EU needs to show it has the capacity to set both positive and negative priorities."[2]

1 Netherlands Subsidiarity Review – June 2013 – expressing the guiding principle of subsidiary.

2 José Manuel Durão Barroso, President of the European Commission, State of the Union address, 11 September 2013. http://europa.eu/rapid/press-release_SPEECH-13-684_en.htm

1. Subsidiarity in the treaties

